

Agenda

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Cyhoeddus Bwrdd CNC
Dyddiad y cyfarfod:	Dydd Iau, 20 Mawrth 2025
Amser y cyfarfod:	9am – 12.40pm

Amser	Eitem
Materion rhagarweiniol	
9am (5 munud)	Eitem 1. Dechrau'r cyfarfod • Croeso • Datgan buddiannau • Egluro trefn y cyfarfod Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd) Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiant
9.05am (5 munud)	Eitem 2. Adolygu'r cofnodion a chofnod y camau gweithredu 2A. Adolygu cofnodion y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2B. Adolygu'r cofnod o gamau gweithredu cyhoeddus Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd) Crynodeb: CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r cofnod o gamau gweithredu
Gosod y sefyllfa	
9.10am (10 munud)	Eitem 3. Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y cadeirydd Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd) Crynodeb: NODI diweddariad y cadeirydd i'r bwrdd

9.20am
(10 munud)

Eitem 4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr

Noddwr a chyflwynydd: Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro

Crynodeb: NODI'R sefyllfa bresennol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd ar y prif weithgareddau

Cyfeirnod y papur: 25-03-B11

Llywodraethu, Risg a Sicrwydd

9.30
(20 munud)

Eitem 5. Adroddiadau diweddarau'r pwyllgorau a'r fforymau

Noddwyr a chyflwynwyr: Cadeiryddion y pwyllgorau

- Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg
- Y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth
- Y Pwyllgor Cyllid – 6 Chwefror a 5 Mawrth (ar lafar)
Cyfeirnod y papur: 25-03-B24
- Y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd – 11 Chwefror (*Cyfarfod ar y cyd o'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd a'r Pwyllgor Ystad Tir*)
- Y Pwyllgor Ystad Tir – 11 Chwefror
Cyfeirnod y papur: 25-03-B12
- Y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid – 19 Chwefror
Cyfeirnod y papur: 25-03-B13
- Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig – 13 Chwefror
Cyfeirnod y papur: 25-03-B14
- Fforwm Rheoli Tir Cymru – Dim cyfarfod
Cyfeirnod y papur: 25-03-B23
- Fforwm Pysgodfeydd Cymru
- Fforwm Rheoli Dŵr Cymru – Dim cyfarfod
- Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru
- Grŵp Galluogi'r Sector Amgylcheddol (Ar lafar)

Crynodeb: NODI'R wybodaeth ddiweddaraf gan bwyllgorau'r bwrdd a fforymau CNC, o fewn a thu allan, a'r cyfarfodydd a gynhaliwyd

Cynllunio strategol

9.50am
(30 munud)

Eitem 6. Trafodaeth strategol: Rheoleiddio mewn cyfnod o dwf

Noddwr: Dom Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu

Cyflwynydd: Nadia De Longhi, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu; Martin Cox, Pennaeth Gweithrediadau; Ruth Jenkins, Pennaeth Datblygiadau Cynllunio a Môrol

Crynodeb: Trafodaeth strategol am oblygiadau ein hamgylchedd gweithredu newidiol i gyflawni'r buddion a ragwelir yn ein Cynllun Corfforaethol a rheoli ein risgiau strategol.

Cyflawni ein cynllun

10.20am
(20 munud)

Eitem 7. Adroddiad perfformiad cyllid

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

Crynodeb: CYMERADWYO'R sefyllfa ariannol ddiweddaraf

Cyfeirnod y papur: 25-03-B17

10.30am
(20 munud)

Eitem 8. Diweddariad chwarterol ar ddangosfwrdd perfformiad y cynllun busnes

Noddwr: Y Tîm Gweithredol

Cyflwynydd: Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro

Crynodeb: CYMERADWYO diweddariad chwarterol y trydydd chwarter ar ddangosfwrdd perfformiad y cynllun busnes

Cyfeirnod y papur: 25-03-B18

10.50am
(20 munud)

Eitem 9. CNC ar X (Twitter gynt)

Noddwr: Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol

Cyflwynydd: Meinir Wigley, Pennaeth Cyfathrebu a Thrawsnewid Digidol

Crynodeb: CYMERADWYO'R dull

Cyfeirnod y papur: 25-03-B19

11.10am
(15 munud)

Egwyl

11.25am
(30 munud)

Eitem 10. Chwaraeon modur ar y tir sydd yng ngofal Cyfoeth Naturiol Cymru

Noddwr: Dom Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu

Cyflwynydd: Rachel Chamberlain, Pennaeth Dros Dro Stiwardiaeth Tir; Dave Liddy, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Hamdden ar yr Ystad

Crynodeb: Trafod gweithrediad y strategaeth y cytunwyd arni'n ddiweddar

Cyfeirnod y papur: 25-03-B20

Trafodaeth trwy eithriad

11.55pm
(0 munud)

Eitem 11. Adroddiad chwarterol llesiant, iechyd a diogelwch

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol

Cyflwynydd: Charlotte Morgan, Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch

Crynodeb: CYMERADWYO adroddiad trydydd chwarter llesiant, iechyd a diogelwch

Cyfeirnod y papur: 25-03-B21

11.55am
(5 munud)

Eitem 12. Unrhyw fater arall

12pm
(10 munud)

Eitem 13. Sut wnaethon ni berfformio yn y cyfarfod hwn?

Noddwr: Syr David Henshaw, Cadeirydd

Crynodeb: Adolygiad o'r cyfarfod

12.10pm

Cau'r cyfarfod

12.20pm
(20 munud)

Sesiwn holi ac ateb ar gyfer y cyhoedd

12.40pm

Cau'r cyfarfod cyhoeddus

Cofnodion DRAFFT heb eu cadarnhau

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru – Cyfarfod Cyhoeddus
Lleoliad:	Ystafell y Bwrdd, Parc Cathays 2, Microsoft Teams
Dyddiad y cyfarfod:	23 Ionawr 2025
Aelodau'r bwrdd yn bresennol:	Syr David Henshaw Yr Athro Steve Ormerod, Dirprwy Gadeirydd Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro Geraint Davies Dr Pete Fox Yr Athro Calvin Jones Lesley Jones Yr Athro Rhys Jones Mark McKenna Kath Palmer Helen Pittaway Dr Rosie Plummer
Aelodau'r Tîm Gweithredol yn bresennol:	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithrediadau Dominic Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Hefyd yn bresennol:	Phil Williams, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (pob eitem) Rob Bell, Pennaeth Cyllid – eitemau 7 ac 8 Vic Rose-Piper, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Busnes ac Adfywio – eitem 9 Lisa Phillips, Uwch-gynghorydd Arbenigol, Dulliau Rheoleiddiol – eitem 9 Naomi Lawrence, Pennaeth Profiad Cwsmeriaid – eitem 9 Andrew Jones, Rheolwr Trawsnewid Busnes – eitem 9

	Silas Jones, Rheolwr Gwasanaethau Adnewyddu – eitem 9 Charlotte Morgan, Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch – eitem 9 Dion Griffiths (Teams), Prif Gynghorydd Arbenigol, Datblygu Sefydliadol – eitem 9
Sylwedyddion CNC yn bresennol:	Neb
Sylwedyddion o'r cyhoedd yn bresennol:	Aelodau ychwanegol o'r cyhoedd
Ymddiheuriadau:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Ysgrifenyddiaeth:	Natalie Williams, Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd ac Arweinydd Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Rhiannon Spencer, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Datganiadau o fuddiant:	• Dr Rosie Plummer – Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro: rhyngweithiadau eang, yn cynnwys Withyhedge (gydag CNC), gan gynnwys dynodiad tirwedd y parc cenedlaethol a mesurau diogelu, yn cynnwys afonydd ardaloedd cadwraeth arbennig, parthau morol, derbynnydd grantiau amrywiol a chydweithredwr. • Geraint Davies – Mentor gyda Cyswllt Ffermio; cydymaith Canolfan Ymchwil yr Ucheldir, Pwllpeiran; cytundeb rheoli tir adran 16 ar waith ag CNC. • Yr Athro Rhys Jones – rhan o brosiect ymchwil a ariannwyd, gyda Phrifysgol Coventry, a fydd yn archwilio datblygiad a gweithrediad cynnar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. • Yr Athro Calvin Jones – Aelod o banel cynghori ar fetrigau bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru. • Ceri Davies – Ymddiriedolwr Cadwch Gymru'n Daclus.

Eitem 1. Cychwyn y cyfarfod

1. Cychwynnwyd y cyfarfod gan y cadeirydd. Croesawodd bawb, ac esboniodd reolau a gweithdrefnau'r cyfarfod. Nodwyd datganiadau o fuddiant ac ymddiheuriadau fel uchod.

Eitem 2. Adolygu'r cofnodion a chofnod y camau gweithredu

Eitem 2A. Adolygu cofnodion y cyfarfod ar 21 Tachwedd

2. Adolygwyd cofnodion cyfarfod cyhoeddus y bwrdd a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd a chytunwyd arnynt.

Eitem 2B. Adolygu'r cofnod o gamau gweithredu

3. Adolygwyd a nodwyd y cofnod o gamau gweithredu.

Eitem 3. Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y cadeirydd

4. Rhoddodd y cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd am y broses recriwtio ar gyfer aelodau newydd o'r bwrdd. Roedd adroddiad yn cael ei baratoi ar gyfer y Prif Weinidog i aelodau ymuno â'r bwrdd yn 2025. Canmolodd y cadeirydd Llywodraeth Cymru ar y broses, a diolchodd i'r timau am eu cymorth.

Eitem 4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr

5. Rhoddodd y Prif Weithredwr Dros Dro yr wybodaeth ddiweddaraf am eitemau, ac am yr adroddiad ysgrifenedig. Yn dilyn y stormydd diweddar, roedd CNC yn parhau i weithio gyda'r awdurdodau lleol yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt fwyaf, a byddent yn parhau â'u gwaith ar yr ystadau. Roedd rhybuddion tywydd pellach wedi'u cyhoeddi, ac roedd timau'n barod i ddarparu cymorth.
6. Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ac roedd trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch sut i ddatblygu'r prif feysydd gwaith mewn nifer o feysydd. Cydnabuwyd mai ymdrech Cymru ar y Cyd oedd hwn i helpu cymunedau i ddod yn fwy gwydn. Byddai diweddariadau pellach yn cael eu darparu i'r bwrdd ar y gwaith a'r adolygiadau o ddigwyddiadau.
7. Roedd y tîm yn ymwybodol bod y tymor ar gyfer taenu ar dir wedi dod i ben ledled Cymru. Cafwyd ymholiadau a phryderon ynghylch llygredd afonydd. Roedd rheoliadau llygredd ar waith i sicrhau bod trafodaethau'n cael eu cynnal â ffermwyr.
8. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yr wybodaeth ddiweddaraf am ei ymweliad â'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i ddarparu tystiolaeth ar gloddfeydd metel, chwareli a thomenni glo, gan dynnu sylw hefyd at rôl CNC yn y maes hwn. Roedd ymchwiliad i fioamrywiaeth wedi'i gyhoeddi. Roedd tystiolaeth bellach wedi'i darparu, ac roedd CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru fel y corff cadwraeth natur. Holodd y bwrdd ynghylch sut y byddai argymhellion yn cael eu datblygu i'r cam nesaf. Roedd y pwyllgor yn adolygu gwaith yn ymwneud â'r amgylchedd dŵr, a gwaith seilwaith.
9. Roedd CNC wedi cadw safon rheoli iechyd a diogelwch galwedigaethol ISO 45001 heb unrhyw fân achosion o ddiffyg cydymffurfio. Nodwyd llwyddiant yr ymdrech i wella llesiant, iechyd a diogelwch yn y sefydliad.

10. Roedd y BBC wedi cysylltu â CNC mewn perthynas â'r ymchwiliad i safle tirlenwi Withy hedge, ac roedd nifer fawr o gwynion amdano wedi dod i law drwy gydol mis Ionawr. Roedd y lefelau methan wedi cael eu hasesu, ac roeddent yn isel yn gyffredinol, er eu bod ychydig yn uwch mewn un ardal. Byddai'r timau'n parhau i'w rheoleiddio a'u cadarnhau. Roedd lefel uwch o gwynion hefyd yn dod i law mewn perthynas â safle tirlenwi Hafod, ac roedd arbenigwyr wedi nodi meysydd i'w gwella ar gyfer y safle.
11. Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Roedd newid disgrifiadol wedi bod yn yr asesiad, ond roedd y timau'n obeithiol o ran yr hyn y gallent ei wneud dros natur. Holodd y bwrdd ynglŷn â barn CNC o ran y newidiadau yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a gofynnodd am yr wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau a oedd yn cael eu cynnal â'r grwpiau cymunedol. Roedd CNC yn gallu cynnal ei ymdrechion o ran bioamrywiaeth a chadwraeth ar gyfer y dyfodol, ac roedd wedi bod yn glir gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y targedau a bennwyd yn y maes hwn. Roedd cyllid ychwanegol wedi'i sicrhau ar gyfer y cynllun pan fyddai wedi dechrau.
12. Bu'r bwrdd yn trafod sut y byddai'r cynlluniau rheoli yn cael eu dylunio ar gyfer safleoedd penodol mewn perthynas â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig fonitro cynnydd y cynlluniau rheoli mewn perthynas â safleoedd dynodedig, gan ei fod yn hollbwysig i berchnogion tir yn rheoli safleoedd gwarchodedig. Tynnodd Geraint Davies, aelod o'r bwrdd, sylw at y ffaith y byddai CNC yn ymweld â'r ardaloedd gwarchodedig ar ei safle, ac yn eu hasesu, cyn cynnal y gwaith a fyddai'n cael ei gyflwyno.
13. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus gydag aelodau'r bwrdd ynghylch y tair canolfan ymwelwyr. Tynnwyd sylw at y camau nesaf, gan gynnwys agor gofod ar gyfer dinasyddion a gwahodd pobl â diddordeb i wneud rhywbeth yn y tair canolfan ymwelwyr. Roedd y timau'n gwrandao ar yr hyn yr oedd y gymuned am ei weld yno, ac roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch cymryd yr awenau o ran darparu ar gyfer y canolfannau. Roedd CNC yn aros am gyngor cyfreithiol, ond nodwyd y byddai lluniaeth yn cael ei ddarparu ym Mwlch Nant yr Arian a Choed y Brenin o 1 Ebrill 2025. Roedd buddsoddiadau bach yn cael eu gwneud, ac roedd y mwyafrif o'r cynlluniau trosglwyddo wedi'u cwblhau, gyda gwybodaeth am sut i'w rhoi ar waith.
14. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro'r Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yr wybodaeth ddiweddaraf am brif gyfrifoldebau CNC mewn perthynas â'r tomenni glo a'r chwareli. Byddai hefyd yn cynrychioli CNC tra bod y gwaith gyda'r awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddo. Darparwyd esboniad o sut y byddai Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) yn gweithio, ac roedd CNC yn cefnogi'r darpariaethau a'r dull gweithredu, gan fod hyn yn hollbwysig ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Amlinellwyd y costau. Roedd cyllid cyfalaf wedi'i roi gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd angen adolygu'r costau refeniw a'r costau cynnal a chadw.

CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd am y tomenni glo a'r Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru).

Eitem 5. Adroddiadau diweddarau'r pwyllgorau a'r fforymau

15. Rhoddodd Kath Palmer, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, yr wybodaeth ddiweddaraf o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr. Roedd mater yn ymwneud ag ardaloedd draenio mewnol wedi'i godi gan Archwilio Cymru, ac roedd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg wedi gofyn am nodyn briffio pellach. Trafodwyd hefyd y cynnydd a wnaed o ran rheoli risgiau, a nodwyd y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn goruchwyllo traciwr gweithrediadau llywodraethu a'r cynllun gweithredu llywodraethu. Tynnwyd sylw at ddau archwiliad dilynol a fyddai'n cael eu gohirio tan 2026, oherwydd y pryderon ynghylch cael digon o adnoddau ar gyfer yr archwiliadau hyn. Cytunwyd y byddai'r Tîm Gweithredol yn gyfrifol am y cam gweithredu ynghylch adnoddau. Bu'r pwyllgor hefyd yn trafod y risgiau a'r deilliannau a oedd yn gysylltiedig â'r Achos dros Newid.

CAM GWEITHREDU: Yr ysgrifenyddiaeth i gynnwys eitem sefydlog ar gyfer llywodraethu ar flaenraglen waith y bwrdd.

16. Rhoddodd Helen Pittaway, cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr ac 8 Ionawr. Bu'r pwyllgor yn trafod CNC2030 a'r pryderon ynghylch prosiect technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sefydlog oherwydd bod diffyg adnoddau. Bu'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn adolygu'r perfformiad ariannol, y gyllideb a chynllunio busnes.

17. Trafodwyd effaith ariannol y stormydd diweddar, a holwyd a oedd CNC wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru am y costau hyn. Byddai'r Prif Weithredwr Dros Dro yn gwirio cynnydd CNC o ran sicrhau bod adnoddau ar gael, ac awgrymodd y gallai fod yn haws amcangyfrif effeithiau asedau llifogydd ac asedau gwynt o gymharu ag effeithiau eraill. Cafwyd trafodaethau ynghylch yr effaith ar y tîm rhybuddio a hysbysu, gan nad oedd rhai staff yn gallu gwneud y gwaith busnes fel arfer. Byddai hyn yn cael ei adolygu er mwyn rhoi adborth i Lywodraeth Cymru.

18. Tynnodd yr Athro Steve Ormerod, cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth, sylw at wahoddiad aelodau'r bwrdd i Gynhadledd Tystiolaeth CNC ar 30 Ionawr 2025, lle byddai trafodaethau ynghylch sut roedd CNC yn defnyddio tystiolaeth i gael effaith gadarnhaol.

19. Rhoddodd Dr Pete Fox, cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ionawr. Roedd adolygiad wedi'i wneud ar raglen gyfalaf eleni. Bu'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd yn trafod yr achos busnes amlinellol a oedd yn ceisio nodi'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r rhaglen gyfalaf, gan gynnwys pa risgiau y dylid mynd i'r afael â nhw. Cafodd y pwyllgor ddealltwriaeth well o'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â nifer fawr o brosiectau a rhaglenni. Trafodwyd hefyd bapur praeseptau a chyfraddau'r ardaloedd draenio mewnol, ac roedd y drafodaeth strategol ar yr ardaloedd draenio mewnol wedi'i gohirio

tan y cyfarfod ar y cyd rhwng y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd a'r Pwyllgor Ystadau Tir.

20. Rhoddodd Mark McKenna, cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid, yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod 10 Rhagfyr, pan oeddent wedi trafod y risgiau strategol, y strategaeth newydd ar gyfer y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid, yr achos dros newid, a'r ISO 45001. Byddai trafodaeth ar strategaeth newydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid yn cael ei hychwanegu at flaenraglen waith y bwrdd.

CAM GWEITHREDU: Yr ysgrifenyddiaeth i ychwanegu eitem ar gyfer y strategaeth pobl i flaenraglen waith y bwrdd.

21. Rhoddodd yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru, ddiweddariad i'r bwrdd. Cyflwynwyd strategaeth y diwydiant coedwigaeth i'r fforwm, ac ystyriwyd yr holl elfennau a oedd yn bwysig o ran amcanion CNC a'r strategaeth ynghylch sut i ddefnyddio tir yng Nghymru. Holwyd sut oedd rhanddeiliaid yn teimlo am y newidiadau, ac a oeddent yn eu derbyn. Cafwyd ymateb cadarnhaol, ac er bod rhywfaint o ansicrwydd wedi bod mewn perthynas â rhai agweddau, roedd hwn yn rhywbeth y gallent ei gefnogi.
22. Rhoddodd yr Athro Steve Ormerod, cadeirydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd. Roedd prif thema cyfarfod Fforwm Pysgodfeydd Cymru yn ymwneud â gwaith partneriaid a chydweithredwyr. Roedd nifer eogiaid yr lwerydd a oedd yn cael eu dal yn cael ei fonitro. Cyflwynwyd is-ddeddfau'n ymwneud ag eogiaid a brithyllod môr yn dilyn adolygiad yn 2020. Bu'r fforwm yn trafod a oedd yr is-ddeddfau yn addas i'r diben. Nodwyd gan y bwrdd y byddai Prosiect LIFE Afon Dyfrdwy yn dod i ben, a'i bod yn bwysig cael cynllun newydd ar waith i barhau â'r gwaith a wnaed eisoes. Cadarnhawyd bod gweithgareddau'n parhau, a bod y prosiect Pedair Afon LIFE wedi denu newyddion a sylw, ond bod problemau ariannu wedi'u nodi. Bu'r bwrdd yn trafod a allai CNC fynd ar drywydd mathau eraill o gyllid, neu a oedd yn bosibl cynnwys y sector preifat. Roedd gwaith dilynol yn parhau gyda threialon afon Teifi, i ddarparu'r gwaith dilynol ar ôl i brosiect ddod i ben, ac i sicrhau bod unrhyw welliant a wnaed yn cael ei gynnal.
23. Rhoddodd Rosie Plummer, a ddirprwyodd fel cadeirydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd am y cyfarfod diweddar. Bu trafodaethau ynghylch annog trafnidiaeth gynaliadwy mewn parciau cenedlaethol, ac am y gwaith partneriaeth llwyddiannus gyda rhanddeiliaid. Trafodwyd y rhaglen tirweddau, yn ogystal â chysylltu â rhanddeiliaid ar yr ymgynghoriad ar gyfer y parc cenedlaethol arfaethedig newydd. Cyflwynwyd dull cydweithredol i'r fforwm gan staff Network Rail ar sut i leihau'r risgiau sydd ynghlwm â chroesfannau rheilffordd. Roedd nifer o gyfleoedd ar gyfer cydweithio, a ffyrdd newydd o feddwl, mewn perthynas â chyllido a bioamrywiaeth.
24. Rhoddodd Lesley Jones, cadeirydd Grŵp Galluogi'r Sector Amgylcheddol, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri, a sut y gallent gyfrannu. Byddai cyfarfod yn cael ei drefnu rhwng Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Prif Weithredwr Dros Dro i drafod cyfraniad CNC.

Eitem 6. Rheoli busnes y bwrdd

25. Cyflwynodd y cadeirydd yr eitem. Byddai strwythur y sesiwn gyhoeddus yn cael ei adolygu gan y cadeirydd a thîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, gan gynnwys sut y byddai'r sesiwn holi ac ateb yn cael ei hwyluso mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

CAM GWEITHREDU: Y Cadeirydd, y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd i adolygu sut y byddai'r sesiynau holi ac ateb ar gyfer y cyhoedd yn cael eu hwyluso mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, a pharatoi cynnig i'w rannu â'r bwrdd.

26. Nid oedd unrhyw eitemau i'w trafod gan aelodau'r bwrdd.

27. Adolygwyd a thrafodwyd y flaenraglen waith.

Eitem 7. Adroddiad perfformiad cyllid

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

28. Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Rhoddodd y Pennaeth Cyllid ddiweddariad ar yr adroddiad perfformiad cyllid. Roedd cyllid wedi cynyddu, a'r brif elfen oedd cynnydd mewn cymorth grant gan Lywodraeth Cymru, a'r codiad cyflog. Tynnwyd sylw at y prif amrywiadau ar y gwariant, ac roedd CNC yn cario rhai risgiau o ran tanwariant yn y gyllideb, ond roedd hyn yn cael ei fonitro'n weithredol. Gellid dyrannu arian trwy bwysau eraill, a byddai hyn yn cael ei drafod â'r Pwyllgor Cyllid. Gofynnodd CNC i Lywodraeth Cymru a allent ddefnyddio'r gyllideb llifogydd ar gyfer prosiectau cyfalaf eraill.
29. Roedd y risgiau a'r problemau wedi'u hamlinellu, a darparwyd eglurder pellach ar y mwyafrif o'r eitemau ar y sefyllfa tua diwedd y flwyddyn. Y neges i'r sefydliad ehangach oedd gwario'r gyllideb, ond byddai angen iddynt hysbysu'r tîm cyllid pe na fyddai hyn yn bosibl. Roedd darpariaeth y gyllideb ar gyfer dileu swyddi wedi'i chydabod, ac roedd disgwyl i'r tîm cyllid gael y ffigurau ym mis Mawrth 2025. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â CNC, ac wedi gofyn i £7 miliwn gael ei dalu i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Byddai hyn o fudd i CNC, a gofynnwyd am gymeradwyaeth gan y bwrdd. Byddai Llywodraeth Cymru yn cynyddu'r cymorth grant, a fyddai'n cael ei ddileu o gyfraniad y cyflogai.
30. Mewn ymateb i ymholiad gan y bwrdd, nodwyd y byddai ymgynghoriad ynghylch rôl y sector coed yn cael ei lansio, a allai arwain at wahanol ffyrdd o weithio. Roedd rhai problemau gyda'r gwaith anfon, a fyddai'n cael ei fonitro'n barhaus. Pe bai tueddiadau'n cael eu nodi pan fyddai pobl yn ymrwymo i werthu, ond nid yn cael gwared ar y pren, byddai'r tîm rheoli contractau yn ymyrryd. Roedd awydd i felinau llifio ymgymryd â mwy, ac roedd y strategaeth ddiwydiannol ar gyfer pren yn gyfle i CNC lunio a newid. Roedd hanes safonau pren a rheoli contractau wedi cryfhau'n sylweddol.
31. Er bod rhai risgiau a chyfleoedd y byddai angen eu cadarnhau o hyd, darparwyd yr wybodaeth i roi syniad i'r bwrdd o faint o waith yr oedd y tîm cyllid yn ymgymryd ag ef. Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt i ganfod ffyrdd o reoli'r risgiau.

CYMERADWYWYD: Cymeradwyodd y bwrdd y newid yn y rhagolwg o £272.9 miliwn i'r £275.3 miliwn a ragwelwyd.

CYMERADWYWYD: Cymeradwyodd y bwrdd y taliad i Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd o hyd at £7 miliwn.

Eitem 8. Cyllideb yr ardaloedd draenio mewnol

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

32. Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Rhoddodd y Pennaeth Cyllid drosolwg o'r gyllideb ar gyfer yr ardaloedd draenio mewnol i'r bwrdd er mwyn ei gymeradwyo. Roedd y bwrdd yn fodlon bod y Pwyllgor Cyllid eisoes wedi craffu ar y gyllideb ar gyfer yr ardaloedd draenio mewnol yn llawn, ac felly'n barod i'w chymeradwyo.

CYMERADWYWYD: Cymeradwyodd y bwrdd y gyllideb ar gyfer yr ardaloedd draenio mewnol.

Eitem 9. CNC2030 a diweddariad ar y trawsnewid

Cyflwynwyr: Vic Rose-Piper, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Busnes ac Adfywio; Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni; Lisa Phillips, Uwch-gynghorydd Arbenigol, Dulliau Rheoliadol; Naomi Lawrence, Pennaeth Profiad Cwsmeriaid; Andrew Jones, Rheolwr Trawsnewid Busnes; Silas Jones, Rheolwr Gwasanaethau Adnewyddu; Charlotte Morgan, Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch; Dion Griffiths, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Datblygu Sefydliadol

33. Cyflwynwyd yr eitem gan y Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Busnes ac Adfywio. Cyflwynwyd ysgogwyr y system rheoli dysgu gan y Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch, ac arddangoswyd y system rheoli dysgu gan y Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Datblygu Sefydliadol. Nodwyd bod archwiliwr allanol ISO 45001 wedi croesawu'r system rheoli dysgu newydd, a bod y bwrdd yn gwerthfawrogi'r newidiadau sylweddol.
34. Argymhellwyd bod aelodau'r bwrdd yn ymuno â'r system rheoli dysgu ar gyfer cyfres o gyrsiau. Byddai cyngor yn cael ei ddarparu yn egluro a fyddai'r rhain yn orfodol neu'n ddewisol. Eglurwyd y gallai staff lawrlwytho eu cofnodion hyfforddi a chopïau o dystysgrifau. Roedd angen eglurhad ynghylch a ellid rhannu'r system rheoli dysgu â chynulleidfaoedd allanol ehangach.

CAM GWEITHREDU: Y Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch i egluro a ellid rhannu'r system rheoli dysgu â chynulleidfaoedd allanol.

35. Awgrymodd y bwrdd y dylai cyflwyniad i bob maes o'r busnes fod ar gael i'r sefydliad cyfan. Byddai modd cyrchu'r e-gynefino, a gellid ei ddefnyddio ar gyfer gwaith cynllunio strategol o'r gweithlu. Byddai gwersi a ddysgwyd a gwerthuso yn parhau. Cydnabuwyd bod gan y plattform swyddogaethau pellach a fyddai'n cael eu hystyried o hyn ymlaen. Roedd y bwrdd o'r farn bod y system rheoli dysgu newydd yn rhywbeth i'w groesawu.

36. Cyflwynwyd y cynllun pontio i gerbydau trydan gan y Rheolwr Gwasanaethau Adnewyddu. Roedd y bwrdd yn cefnogi'r dull, yn enwedig y ffordd yr oedd y staff yn ymgysylltu â'r cynllun, ac awgrymodd ddefnyddio'r rheiny a oedd eisoes wedi mabwysiadu'r cynllun fel eiriolwyr. Rhoddodd y bwrdd ganmoliaeth i'r gwaith a wnaed, a'r cyfleoedd i gydweithio yn y dyfodol.
37. Mewn ymateb i ymholiadau a wnaed, rhoddwyd eglurhad am sut i ddefnyddio'r gwefrydd 40 cilowat cerrynt eiledol, ac esboniwyd bod modd defnyddio'r cerdyn tanwydd ar gyfer gwefru mewn mannau cyhoeddus. Ar y pryd, roedd y tîm yn bwriadu newid y cyflenwyr trydan i dariff gwyrdd mwy hyblyg. Nid oedd yr hyn a oedd ar gael yn y cartref ar gael i fframwaith y sector cyhoeddus, ac roedd llobio darparwyr ynni yn opsiwn. Byddai modiwlau e-ddysgu ar y system rheoli dysgu ar sut i optimeiddio effeithlonrwydd o ran ynni wrth yrru, a magu hyder.
38. Roedd heriau'n ymwneud â chapasiti ac adnoddau o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle i wefru'r batriâu, a byddai'n cymryd peth amser i fynd i'r afael â hyn. Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt â Llywodraeth Cymru ynghylch nodi costau i'w rhannu, a chyfleoedd ar gyfer caffael cerbydau trydan ar y cyd. Roedd y tîm hefyd yn edrych ar y feddalwedd swyddfa gefn er mwyn caniatáu mynediad i fannau gwefru i staff sector cyhoeddus eraill. Cadarnhawyd bod strategaeth wefru ar waith, gyda dewisiadau gwefru â blaenoriaeth ar gael.
39. Roedd gwaith modelu ariannol yn mynd rhagddo ynghylch faint y byddai'n ei gostio i redeg a chynnal a chadw cerbydau trydan, a chafwyd esboniad o'r newidynnau. Nid oedd unrhyw gynlluniau, ar y pryd, i roi mynediad i'r cyhoedd i'r mannau gwefru, ond nodwyd y syniad i gysylltu â phobl. Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i staff am aberthu cyflog, a nodwyd y byddai hyn yn cael ei ailystyried yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Roedd y bwrdd yn gwerthfawrogi hynny.
40. Hysbyswyd y bwrdd bod y rhaglen yn rhedeg ar ei hôl hi oherwydd yr heriau o ran adnoddau a chyllid, ond bod y gwaith yn cael ei gyflymu bellach. Nid oedd unrhyw gynlluniau ar y pryd i osod gwefrwyr cartref, ond y gred oedd y byddai staff a fyddai'n gallu gwefru cerbydau trydan y cwmni gartref yn cael eu had-dalu. Byddai diddordeb gan y bwrdd mewn gweld deilliannau'r ymarfer gwersi a ddysgwyd.
41. Cyflwynodd y Pennaeth Profiad Cwsmeriaid y platfform cwsmeriaid, gan egluro ei nodweddion integredig a'r ffordd yr oedd yn parhau i wella. Byddai datblygu sgiliau mewnol yn grymuso staff i wella'r gwasanaethau busnes fel arfer yn y dyfodol, er mwyn dibynnu llai ar gymorth allanol.
42. Y gwasanaeth morol oedd y gwasanaeth cyntaf i gael prawf rhagdybiaeth yng ngham 1, sef Alfa, ac amlinellodd yr Uwch-gynghorydd Arbenigol, Dulliau Rheoliadol yr ymchwil gychwynnol a wnaed. Roedd cyllid Llywodraeth Cymru bellach wedi'i sicrhau. Eglurwyd y tair ffrwd waith gydamserol allweddol, ac roedd yr adborth a gafwyd o ymgysylltu â staff a chwsmeriaid wedi bod yn gadarnhaol. Gellid defnyddio'r cyfleoedd a nodwyd yn y strategaeth forol mewn gwasanaethau eraill ar draws y sefydliad. Byddai'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol yn rhoi sicrwydd cyn symud ymlaen i gam 2, sef Beta.

43. Roedd y bwrdd yn gwerthfawrogi'r fethodoleg ar gyfer ymgysylltu â staff. Rhannwyd dyluniad posibl o'r platfform. Gellid gosod haenau eraill ar gyfer gwybodaeth ddaearyddol gyfunol, a byddai'r system yn cael ei hawtomeiddio lle bo'n briodol. Cydnabuwyd yr heriau, a byddai'r naratif yn cael ei gyfleu i Lywodraeth Cymru. Roedd cyfleoedd i gydweithredu, ac roedd patrymau cyfarwydd cyrff sector cyhoeddus eraill yn cael eu dilyn.
44. Yn ystod cyfnod ymchwiliol Alffa, gellid nodi nifer o wahanol gynhyrchion, ond yr elfen allweddol fyddai integreiddio a chynyddu gwybodaeth fewnol am sut i reoli'r systemau i'w diogelu at y dyfodol. Gwnaethpwyd awgrym i ystyried strwythur Taliadau Gwledig Cymru ar gyfer datblygiad yn y dyfodol. Roedd rhannu data â sefydliadau eraill hefyd yn cael ei ystyried.
45. Teimlai'r bwrdd y byddai'n ddefnyddiol cael sesiwn yn y dyfodol ar weledigaeth gyffredinol CNC2030. Tynnwyd sylw at y gwaith mapio, ond roedd angen mesurau cyflawni allweddol. Roedd y bwrdd yn cydnabod yr uchelgais, yn ogystal â chyfyngiadau'r adnoddau presennol. Croesawodd y bwrdd y tri chyflwyniad, a gofynnwyd am wybodaeth am y ffordd ymlaen dros y pum mlynedd nesaf. Roedd angen cyflymu Rhaglen CNC2030, ond byddai angen adnoddau digonol i wneud hyn. Eglurwyd mai dim ond rhannau o'r rhaglen yr oedd Deloitte yn eu hadolygu, ond bod potensial i gael Deloitte i wneud rhagor o waith neu gael gwahanol arbenigwyr i gymryd rhan.
46. Nodwyd gwaith cyfredol y Tîm Digidol, Data a Thechnoleg o ran dod â thimau aml-gyfeiriad at ei gilydd, a sicrhau partner darparu TGCh.

Eitem 10. Sut wnaethon ni berfformio yn y cyfarfod hwn?

Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw, Cadeirydd

47. Bu'r bwrdd yn myfyrio ar y cyfarfod, a nodwyd pa mor gynhyrchiol a gwerthfawr oedd cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Eitem 11. Unrhyw fater arall

48. Nodwyd gan yr Athro Steve Ormerod gyfarfod blynyddol Sefydliad Cadwraeth Eogiaid Gogledd yr Iwerydd, a fyddai'n dod â phartïon perthnasol y llywodraeth a'r UE ynghyd. Roedd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a CNC wedi chwarae rhan mewn dod â'r cyfarfod i Gaerdydd rhwng 2 a 5 Mehefin 2025. Byddai nifer o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal mewn gwahanol ardaloedd o Gaerdydd y gallai'r bwrdd fynd iddynt.

Daeth y cyfarfod i ben

Sesiwn holi ac ateb gyhoeddus

49. Cyflwynodd y cadeirydd y sesiwn holi ac ateb ar gyfer y cyhoedd.

50. Codwyd cwestiwn ynghylch y canolfannau ymwelwyr. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i ddiogelu pa weithgareddau bynnag gan y Warchodfa Natur Genedlaethol y byddai angen mynd i'r afael â nhw. Roedd y canolfannau ymwelwyr a'r gwarchodfeydd natur cenedlaethol yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd ymweld â nhw. Cydnabu a chroesawodd y bwrdd y gwahoddiad i ymweld ag Ynys-las. Roedd y timau a oedd yn ymwneud â'r gwaith gyda'r canolfannau ymwelwyr wedi cydnabod nad oedd pob un yr un peth.

Daeth y cyfarfod cyhoeddus i ben

Cofnod Camau Gweithredu'r Bwrdd – Cyhoeddus

Rhif y cam gweithredu	Categori'r cyfarfod	Dyddiad y cyfarfod	Rhif yr eitem	Rhif y paragraff	Noddwr y papur	Cam gweithredu	Perchennog	Dyddiad ar gyfer cwblhau	Statws	Nodiadau / Yr wybodaeth ddiweddaraf
46	Cyhoeddus	21 Tachwedd 2024	5	11	Cadeiryddion y pwyllgorau	CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth i ddarparu'r strategaeth tystiolaeth ddrafft i'r bwrdd.	Chris Collins, Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth	23 Ionawr 2025	Cwblhawyd	Awgrymu ei gau – yr wybodaeth ddiweddaraf wedi'i dosbarthu'n flaenorol i'r bwrdd trwy Dom Driver
4	Cyhoeddus	23 Ionawr 2025	4	14	Ceri Davies	CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd am y tomenni glo a'r Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru).	Dom Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	19 Mawrth 2025	Cwblhawyd	Awgrymu ei gau – yr wybodaeth ddiweddaraf wedi'i dosbarthu i'r bwrdd ar 24 Ionawr 2025
5	Cyhoeddus	23 Ionawr 2025	5	15	Cadeiryddion y pwyllgorau	CAM GWEITHREDU: Yr ysgrifenyddiaeth i gynnwys eitem sefydlog ar gyfer llywodraethu ar flaenraglen waith y bwrdd.	Yr ysgrifenyddiaeth	19 Mawrth 2025	Cwblhawyd	Awgrymu ei gau – yr eitem sefydlog ar gyfer llywodraethu wedi'i hychwanegu at flaenraglen waith y bwrdd
6	Cyhoeddus	23 Ionawr 2025	5	20	Cadeiryddion y pwyllgorau	CAM GWEITHREDU: Yr ysgrifenyddiaeth i ychwanegu eitem ar gyfer y strategaeth pobl i flaenraglen waith y bwrdd.	Yr ysgrifenyddiaeth	19 Mawrth 2025	Cwblhawyd	Awgrymu ei gau – Wedi'i ychwanegu at flaenraglen waith y bwrdd ar gyfer mis Tachwedd (ar flaenraglen waith y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid ar gyfer mis Medi)
7	Cyhoeddus	23 Ionawr 2025	6	25	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Y Cadeirydd, y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd i adolygu sut y byddai'r sesiynau holi ac ateb ar gyfer y cyhoedd yn cael eu hwyluso mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, a pharatoi cynnig i'w rannu â'r bwrdd.	Phil Williams, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd	19 Mawrth 2025	Yn parhau	
8	Cyhoeddus	23 Ionawr 2025	9	34	Rachael Cunningham	CAM GWEITHREDU: Y Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch i egluro a ellid rhannu'r system rheoli dysgu â chynulleidfaoedd allanol.	Charlotte Morgan, Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch	19 Mawrth 2025	Yn parhau	

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	20 Mawrth 2025
Teitl y papur:	Adroddiad y Prif Weithredwr (Sesiwn Gyhoeddus)
Cyfeirnod y papur:	25-03-B11
Cyflwynwyd y papur gan:	Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro
Diben	Gwybodaeth a thrafodaeth
Crynodeb	Mae'r papur yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar faterion cyfredol.

Cyflwyniad

- Cynhaliwyd y Gynhadledd Dystiolaeth flynyddol ddiwedd mis Ionawr. Fel bob amser, roedd presenoldeb da a chyflwyniad da iawn, gydag ystod eang o bynciau a rhai siaradwyr rhagorol o'n timau ein hunain a rhanddeiliaid allanol. Roeddem yn ddiolchgar i Claire Bennett, Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol yn Llywodraeth Cymru (LIC), am ei phrif araith ar y dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru, ac i'r Athro Jasper Kenter o Ysgol Fusnes Aberystwyth am ei farn ar werth tystiolaeth brisio. Ar yr ail ddiwrnod, siaradodd Dr Aisling Lannin o'r Sefydliad Rheoli Morol yn ddifyr am ddiwylliant tystiolaeth. Diolch yn fawr iawn i'n holl gyfranwyr mewnol hefyd, am sicrhau bod y gynhadledd yn parhau i fod yn un o uchafbwyntiau pwysicaf ein blwyddyn ac un sy'n ysgogi'r meddwl.
- Yn dilyn y stormydd a'r llifogydd ar ddiwedd 2024, rwyf wedi cael cyfarfodydd pellach gyda Simon Brown, Cyfarwyddwr Gwasanaethau yn y Swyddfa Dywydd, a'r Cynghorydd Andrew Morgan, arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Gyda'r Swyddfa Dywydd, gwnaethom ystyried yr adolygiadau gwersi a ddysgwyd y mae pob un yn eu cynnal a sut rydym yn deall ansicrwydd yn ein gallu i wneud penderfyniadau gwybodus, a byddwn yn parhau i weithio gyda'r Swyddfa Dywydd i wella ein cynllunio a'n rhagfynegiadau mewn perthynas â stormydd. Rydym hefyd yn ystyried pa fuddsoddiad pellach y gallai fod ei angen i gefnogi gwell gallu. Mae fy nhrafodaethau gyda'r Cynghorydd Morgan wedi canolbwyntio ar effaith sylweddol llifogydd ar drigolion a busnesau ym Mhontypridd, a'r potensial ar gyfer cynyddu'r nifer sy'n defnyddio ein gwasanaethau rhybuddio rhag llifogydd, gwella cydnerthedd cymunedol, a sut rydym yn addasu ein gwasanaeth monitro a

rhybuddio rhag llifogydd yn seiliedig ar brofiad. Mae Andrew a minnau'n benderfynol o barhau i gydweithio er budd cymunedau.

3. Rwyf hefyd wedi cyfarfod â Marian Spain, Prif Swyddog Gweithredol Natural England (NE), a Nick Halfhide, Prif Swyddog Gweithredol dros dro yn NatureScot. Roedd hon yn drafodaeth ddefnyddiol, yn canolbwyntio ar sut y gallwn godi proffil cadwraeth ac adfer natur, a sut rydym yn canolbwyntio ein hadnoddau ar y camau gweithredu a fydd yn arwain at y canlyniadau gorau. Rydym yn bwriadu – gydag NE yn croesawu – dod â chadeiryddion a phrif weithredwyr yr holl gyrff cadwraeth natur ynghyd i atgyfnerthu ein cydweithio.
4. Ym mis Chwefror, roeddwn wrth fy modd i fod yn bresennol pan lofnodwyd memorandwm cyd-ddealltwriaeth newydd rhwng CNC, Cadw a Heneb (Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru gynt). Rydym wedi bod â chytundebau o'r fath ar waith ers 2016, sy'n nodi ein hamcanion a'n dealltwriaeth gyffredin o ran buddiannau a rennir yn yr amgylcheddau hanesyddol a naturiol. Mae'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth diweddaraf yn hyrwyddo cydweithio a phartneriaeth barhaus i sicrhau strategaethau rheoli tir mwy effeithiol a bod safleoedd treftadaeth naturiol a diwylliannol yn cael eu cadw'n barhaus.
5. Cyfarfu prif weithredwyr Dŵr Cymru, Afonydd Cymru a minnau â'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a'r canlyniadau sydd i'w cyflawni gan Brosiect Dalgylch Arddangos Teifi. Arweinir y prosiect hwn gan Dŵr Cymru ac CNC. Fel prif swyddogion gweithredol, mae'r tri ohonom yn rhoi cymorth i'n timau weithio gyda'n gilydd a chydag ystod eang o randdeiliaid i gyflawni camau gweithredu graddadwy yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor i wella ansawdd dŵr afonydd yn nalgylch afon Teifi, wrth annog gwytnwch hinsawdd a gwell bioamrywiaeth ar yr un pryd, yn unol ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Ein nod yw datblygu dulliau rheoleiddio a chyfathrebu tystiolaeth arloesol ac ystwyth i gefnogi ystod o ymyriadau.
6. Cyfarfu Gareth O'Shea a minnau ag arweinwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ym mis Mawrth i sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni ein cyfrifoldebau dros gymunedau Cymru. Rydym yn cydweithio â nhw o dan ymbarél ein memorandwm cyd-ddealltwriaeth diwygiedig, a lofnodwyd ym mis Medi 2023 ac sy'n nodi'r bensaernïaeth ar gyfer cyfathrebu effeithiol ar lefelau haenog rhwng CLILC, CNC ac awdurdodau lleol unigol. Mae'r ffordd hon o weithio yn ein helpu i sefydlu perthnasoedd mwy dibynadwy ac i gyfathrebu'n fwy effeithiol ynghylch ein hamcanion cyffredin. Y mis hwn, bu ein cyfarfod yn ystyried heriau stormydd a llifogydd sy'n effeithio ar gymunedau yng Nghymru, materion cyllidebol, a diweddariad ar ein rhaglen achos dros newid.
7. Mae nifer o'n timau wedi cyflawni canlyniadau rhagorol yn ystod y mis diwethaf. Enillodd ein tîm TGCh achrediad Lefel 2 Sicrwydd Seiber gan y cwmni IASME (Sicrwydd Gwybodaeth ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig). Dyma'r flwyddyn gyntaf i ni ymgymryd â gwaith i gyflawni'r achrediad uwch hwn, sy'n ddilys am dair

blynedd ac sy'n adlewyrchu cydymffurfedd â thair ar ddeg o themâu seiberddiogelwch sy'n amrywio o gynllunio a threfnu ar gyfer diogelwch gwybodaeth, i reoli digwyddiadau, diogelu asedau a pharhad busnes. Roedd yr asesiad yn cynnwys archwiliad cynhwysfawr o'n rheolaethau seiberddiogelwch ac mae'r achrediad yn cadarnhau bod gennym ni fesurau diogelwch, preifatrwydd a diogelu data cadarn ar waith.

8. Llongyfarchiadau hefyd i'n timau Rheoli Bywyd Gwyllt, sydd wedi gweithio gydag aseswr allanol ar ein harchwiliad Cig Carw Gwyllt o Ansawdd Prydeinig (BQWV). Ni chanfu'r archwiliad unrhyw ddiffyg cydymffurfio a chymeradwywyd ein cynhyrchiad cig carw ar draws y pedwar safle pantri. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn yr adroddiad isod.
9. Mae ein tîm Archwilio Mewnol hefyd wedi cael llwyddiant gyda dau gydweithiwr yn pasio arholiadau ar eu ffordd i ennill statws Archwiliwr Mewnol Ardystiedig. Bydd yr ardystiad llawn yn dilyn ar ôl cwblhau eu profiad ymarferol ym mis Gorffennaf eleni. Dyfernir y cymhwyster gan y Sefydliad Archwilio Mewnol Byd-eang, ac mae llwyddo yn yr arholiadau yn gyflawniad aruthrol gan fod y safon yn uchel a'r gyfradd llwyddiant yn 48% yn unig. Mae ein dau archwilydd mewnol wedi gwneud hynny ar y cynnig cyntaf, ar ôl ymuno â'n tîm yn 2023.
10. Mae'r Tîm Gweithredol a minnau'n parhau i chwilio am gyfleoedd i gysylltu'n fwy rheolaidd â chydweithwyr ar bob lefel. Rydym bellach yn cynnal galwad Diweddariad Misol y Rheolwyr fel mater o drefn, gan ddefnyddio'r amser hwn i osod cyd-destun, rhaeadru gwybodaeth o gyfarfodydd y bwrdd a phwyllgorau, a darparu mewnwelediad i benderfyniadau strategol – ac i ymateb yn uniongyrchol i gwestiynau gan ein cydweithwyr rheoli. Rydym hefyd yn treulio mwy o amser yn ein swyddfeydd a'n depos, yn darparu arweinyddiaeth weledol ac yn sgwrsio gyda chydweithwyr i ddeall eu barn a'u teimladau'n well. Yn yr un ysbryd o gyfathrebu agored, rydym yn cael trafodaethau amlach gyda'n partneriaid yn yr undebau llafur, ac yn croesawu eu hymgyssylltiad adeiladol parhaus â ni.
11. Cwblheais hyfforddiant swyddog cyfrifyddu Coleg y Gwasanaeth Sifil ym mis Chwefror. Diolch i gydweithwyr Llywodraeth Cymru David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethu, a Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, ac i Brian Whalley o Goleg y Gwasanaeth Sifil am fy nghefnogi yn y rôl hon cyn y cwrs.

Materion Strategol

Diweddariad 30 erbyn 30

12. Mae gwaith gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni'r ymrwymiad "30 erbyn 30" i ddiogelu a rheoli 30% o dir, dŵr croyw a'r môr ar gyfer byd natur erbyn 2030 yn cyrraedd carreg filltir allweddol. Ddechrau mis Mawrth, ystyriodd grŵp craidd yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, ymhlith pethau eraill:

- Cynigion ar gyfer cyfraniadau gan y mecanwaith Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill, mecanwaith sy'n dod i'r amlwg ar gyfer disgrifio safle daearyddol sy'n sicrhau cadwraeth bioamrywiaeth hirdymor o dan lywodraethu a rheolaeth deg. Fel rhan o hyn, rydym wedi mapio'r tir yn ein gofal ac wedi sefydlu y gallai'r rhwydwaith o goetir hynafol, parthau glannau afonydd, coedwriaeth effaith isel (presennol ac arfaethedig), a chynefinoedd eraill nad ydynt yn goetiroedd megis mawndiroedd fod yn sail i Fesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill ar gyfer yr ystad gyfan. Mae hyn tua 30% neu 40,000 hectar o'r tir yn ein gofal. Mae hyn yn deillio o'r Strategaeth ar gyfer Natur ar y Tir yn ein Gofal, lle penderfynasom mai Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill oedd bron yn sicr y ffordd ymlaen i ddull mwy deinamig o ddiffinio llwyddiant mewn cadwraeth bioamrywiaeth. Mae ein cynnig yn ein rhoi mewn sefyllfa uchelgeisiol ar gyfer cyflawni targedau 30 erbyn 30 ac yn fesur arloesol o ran defnyddio'r tir yn ein gofal i weithio allan sut i gyflawni'r ymrwymiad trwy reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
- Meddwl am rôl safleoedd dynodedig (Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol) yn 30 erbyn 30, gyda dadl ynghylch a allant hwy eu hunain gyfrannu at 30 erbyn 30 neu a all elfennau ohonynt drwy fecanwaith y Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill.
- Cyhoeddi adroddiadau terfynol gan grwpiau arbenigol yn fuan, gan gynnwys gan yr Is-grŵp Monitro a Thystiolaeth a gadeirir gan Gyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu.

Comisiwn Dŵr Annibynnol

13. Ym mis Chwefror, mynychodd Dom Driver lansiad galwad y Comisiwn Dŵr Annibynnol am dystiolaeth am y sector dŵr a'i reoleiddio yng Nghymru a Lloegr (Adolygiad Cunliffe). Roedd y negeseuon allweddol yn cynnwys cydnabod tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr, gyda rôl Cymru â phroffil uchel, gyda chefnogaeth presenoldeb y Dirprwy Brif Weinidog yn y lansiad. Mae'n alwad am dystiolaeth ac yn galw am adborth ar eu syniadau cychwynnol, ac mae'n ymwneud â gwella'r dull monopoli preifat a reoleiddir presennol. Nid yw'r cwmpas yn cynnwys ailwladoli.
14. Mae themâu'r adolygiad yn cynnwys sut i greu cynllun strategol cenedlaethol gyda pherthnasedd rhanbarthol/lleol; meithrin mwy o ymddiriedaeth gyhoeddus; gwella'r amgylchedd dŵr a chynnal ansawdd y cyflenwad wrth ddarparu ar gyfer y gwahanol ddefnyddiau o ddŵr; cynyddu effeithlonrwydd rheoleiddio, gan dybio bod angen symleiddio; rheoleiddio monopoli, gan gynnwys mireinio rôl meincnodau er mwyn iddynt ysgogi gwelliant a galluogi hyblygrwydd rhanbarthol; cefnogi hyfywedd economaidd, yn enwedig y cydbwysedd rhwng risg a gwobrau i fuddsoddwyr preifat; a sut i gyflymu gwelliannau seilwaith. Rhoddwyd ymrwymiad i gyflwyno'r adroddiad o fewn yr amserlen gyfredol y cytunwyd arni.

15. Mae ein timau yn datblygu ein hymateb i'r alwad.

Y Môr a Ni

16. Ym mis Ionawr, cyhoeddwyd y Môr a Ni – strategaeth llythrennedd cefnforol i Gymru, sy'n gweithio ochr yn ochr â Phartneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru. Dyma'r strategaeth gyntaf o'i bath yn y DU a dim ond yr ail yn y byd ar ôl Canada. Mae'r prosiect yn cyfrannu at raglen ehangach Degawd y Cefnfor y Cenhedloedd Unedig, sy'n nodi adeiladu llythrennedd cefnforol fel un o ddeg her fyd-eang i'r moroedd. Mae ein strategaeth yn symleiddio ac yn ymhelaethu ar waith ledled Cymru i ymgysylltu â phobl a gwella mynediad a dealltwriaeth o'r amgylchedd morol ar bob lefel wrth annog ymddygiadau mwy cynaliadwy i gefnogi moroedd ac arfordiroedd gwydn.

Grŵp Trawsbleidiol Niwclear

17. Ym mis Ionawr, aethom i gyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Ynni Niwclear yng Nghymru yn y Senedd, a oedd o dan gadeiryddiaeth Vaughan Gething AS. Y grŵp trawsbleidiol fydd y fforwm i Aelodau'r Senedd, rhanddeiliaid a phartïon â diddordeb godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r sector niwclear sifil yng Nghymru, gan gynnwys ar draws adeiladau newydd, datgomiynu a'r ôl troed cysylltiedig, y gweithlu, a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru.
18. Un o nodau allweddol y grŵp yw gwneud Cymru yn arweinydd byd-eang ym maes ynni niwclear. Bydd y grŵp trawsbleidiol yn archwilio materion fel cyflawni prosiectau niwclear newydd, prinder sgiliau, cyfleoedd ar gyfer y gadwyn gyflenwi, a sicrhau bod cymunedau yn rhan o lunio'r dyfodol.

Materion Gweithredol

Gwaith Sment Padeswood – Dal a Storio Carbon

19. Mae Heidelberg Materials yn bwrw ymlaen â'i gynlluniau i osod gwaith dal carbon deuocsid ôl-hylosgi yng Ngwaith Sment Padeswood yn yr Wyddgrug, Sir y Fflint. Byddai tua 800,000 tonnall o CO₂ y flwyddyn a ddaliwyd yn Padeswood yn bwydo i glwstwr diwydiannol Hynet ar gyfer storio daearegol mewn cronfeydd olew a nwy disbyddedig alltraeth ym Mae Lerpwl. Mae'r datblygiad hwn yn paratoi'r ffordd tuag at y safle cynnyrch sment sero net cyntaf yn y DU.
20. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r gweithredwr i sicrhau bod proses gadarn o wneud penderfyniadau yn diogelu'r amgylchedd a chymunedau lleol, wrth gydnabod ar yr un pryd y brys i gymryd camau i addasu i newid hinsawdd drwy ddatgarboneiddio diwydiannol. Cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig ym mis Chwefror 2025 pan wnaethom gadarnhau bod y cais i amrywio trwydded amgylcheddol y gosodiad "wedi'i wneud yn briodol". Mae penderfynu ar drwydded ar gyfer y gwaith

dal a storio carbon yn gam hanfodol yn y broses gydsynio gyffredinol ac mae'n cynnwys atebion technegol cyntaf o'r math.

Cig Carw Gwyllt

21. Daeth ein harchwiliad cyntaf o Safon Cig Carw Gwyllt o Ansawdd Prydeinig i ben ac ni chanfuwyd unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio. Canmolodd yr asesydd allanol ac annibynnol ein gwaith ar draws ein pedwar pantri ceirw. Nod y Safon Cig Carw Gwyllt o Ansawdd Prydeinig, y gwnaethom helpu i'w datblygu, yw cynyddu'r gallu i olrhain cig carw gwyllt yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a sicrhau bod set o safonau'n cael eu bodloni ar draws y gadwyn gyflenwi i gefnogi hyder defnyddwyr a chynyddu gwerthiant cig carw gwyllt.
22. Mae cyrraedd y safon yn ychwanegu sicrwydd pellach bod CNC yn cyrraedd y safonau gweithredu uchaf. Mae hyn yn ychwanegol at ardystiad i safonau rhyngwladol o reoli coedwigoedd yn gynaliadwy trwy Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig, sy'n golygu y gall defnyddwyr fod yn hyderus bod cig carw gwyllt o'r tir yn ein gofal yn iach, o ansawdd uchel, yn cael ei gynhyrchu yn unol â'r safonau uchaf o ran lles anifeiliaid, ac yn dod o weithgaredd sy'n rhan o reolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol.

Lleoliadau Myfyrwyr ar gyfer Stiwardiaeth Tir

23. Mae cynllun lleoliadau cyflogedig 2025/26 ar gyfer coedwigaeth bellach ar y gweill, gan recriwtio interniaid hydref i CNC. Rydym yn cynnig dau leoliad, un yng ngogledd-orllewin Cymru a'r llall yn y Canolbarth, gyda phob lleoliad yn cwmpasu coetiroedd a choedwigoedd mewn Parc Cenedlaethol. Bydd y myfyrwyr llwyddiannus yn cael cynnig profiad o'n gwaith mewn gweithrediadau coedwigaeth, rheoli tir a phrosiectau cadwraeth ehangach.
24. Mae'r hysbyseb ddiweddar am y cyfleoedd hyn wedi cael derbyniad brwdfrydig gan gynfyfyrwyr lleoliadau a myfyrwyr newydd, gyda 21 o ymgeiswyr newydd i'r ymgyrch ddiweddaraf hon. Mae olyniaeth yn y gweithlu a recriwtio yn her sylweddol yn y sector coedwigaeth (yn y sectorau cyhoeddus a phreifat) ac mae'r cynllun hwn wedi helpu i godi ein proffil gyda'n gweithlu yn y dyfodol a gwneud mwy o bobl yn y sector coedwigaeth (waeth ble mae eu gyrfaedd yn mynd â nhw) yn ymwybodol o'n dull o reoli coedwigoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a buddion lluosog eraill.

Safle Tirlenwi'r Hafod

25. Rydym yn parhau i dderbyn cwynion am arogl o Safle Tirlenwi'r Hafod, a beirniadaeth yn ymwneud â'n gwaith o reoleiddio'r safle, gyda chynnydd sylweddol yn nifer yr adroddiadau ar System Cofnodi Digwyddiadau Cymru yn ystod y misoedd diwethaf. Bu protest ar y safle ar 31 Ionawr. Rydym wedi cael cryn ddiddordeb yn y cyfryngau ac yn wleidyddol yn lleol a chan gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru.

26. Rydym wedi cwblhau sawl arolygiad safle ac archwiliad allyriadau nwyon tirlenwi manwl yn ddiweddar, a gynhaliwyd gan ein tîm Prosiect Lleihau Allyriadau Tirlenwi. Mae'r archwiliad wedi darparu nifer o argymhellion ar gyfer gwella'r safle ac mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu, gyda nifer o gamau gweithredu eisoes wedi'u cwblhau a gwaith pellach wedi'i gynllunio dros yr wythnosau nesaf.
27. Cyfarfu ein swyddogion â gweithredwyr y safle, Enovert, yn ddiweddar i bwysleisio pwysigrwydd gwneud gwelliannau ar y safle. Rhoddodd Enovert eu hymrwymiad llawn i fynd i'r afael â'r materion, ac rydym yn parhau i fonitro cynnydd bob wythnos. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae Cyngor Wrecsam wedi cyflwyno cynnig yn gofyn am 'asesiad o bryderon cymunedol'. Rydym wedi cytuno i gynnull cyfarfodydd rhanddeiliaid, i gynnwys y gweithredwr, pob sefydliad allweddol, cynrychiolaeth wleidyddol ac aelodau o'r gymuned. Cynhelir y cyfarfod cyntaf ym mis Mawrth ac rydym yn ystyried cynnal digwyddiad cymunedol galw heibio hefyd. Rydym eisoes wedi cyhoeddi cylchlythyr i drigolion ac wedi lansio tudalen Citizen Space i roi diweddariadau am Hafod i'r gymuned leol.

Storm Darragh – De-orllewin Cymru

28. Daeth Storm Darragh, a drawodd Gymru ar 7 a 8 Rhagfyr 2024, â thywydd garw gyda gwyntoedd yn cyrraedd hyd at 90mya. Achosodd y storm ddifrod sylweddol i Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn y de-orllewin ac, er bod asesïadau'n dal i fynd rhagddynt, gwyddom mai Coedwig Brechfa, Sir Gaerfyrddin, yw'r ardal â'r difrod mwyaf, gydag arwynebedd amcangyfrifedig o 300 hectar neu 135,000m³ o goed wedi'u chwalu gan y storm.
29. Roedd gwaith adfer cychwynnol ar ôl y storm yn canolbwyntio ar ailagor llwybrau mynediad ar gyfer gwasanaethau brys a thrigolion, i gyrraedd seilwaith rhanddeiliaid a safleoedd cynaeafu/ailstocio, ac i ffermwyr gyrraedd da byw. Er bod y gwaith hwn wedi'i gwblhau yn gynnar ym mis Ionawr, mae'r broses adfer yn dal i fynd rhagddi a chynghorir ymwelwyr i edrych ar ein gwefan i gael y diweddariadau diweddaraf ar gau safleoedd ac amodau llwybrau. Rydym hefyd yn argymhell gwirio sianeli cyfryngau cymdeithasol cyn cynllunio unrhyw ymweliadau ag Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn y de-orllewin.
30. Bydd y ffocws yn y misoedd nesaf ar ddiwygio rhaglenni cynaeafu, atgyweirio llinellau ffensys, archwilio seilwaith coedwigoedd, ac agor llwybrau cerdded / beicio mynydd. Bydd hyn yn cymryd amser, wrth i staff wneud y gwaith adfer ochr yn ochr â chyflawni rhaglenni gwaith y mae CNC eisoes wedi ymrwymo iddynt ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

Canllawiau Arfer Da Awyr Dywyll

31. Cynhaliwyd digwyddiad lansio ym mis Chwefror ar gyfer Canllawiau Arfer Da Awyr Dywyll newydd, sydd wedi'u datblygu i helpu awdurdodau cynllunio lleol a

datblygwyr i ddeall yn well sut i warchod a gwella awyr dywyll yng Nghymru trwy gynllunio a dylunio da. Mae'r canllawiau'n berthnasol i bob cynnig y mae angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer, ac i gynlluniau ar gyfer goleuadau newydd neu amnewid, goleuadau stryd, neu waith ôl-osod. Y nod yw gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o lygredd golau a manteision cael y golau iawn yn y lle iawn ar yr amser iawn. Mae'r buddion hynny'n ymestyn o lesiant cymunedol, amgylcheddau naturiol iachach a mwy o fioamrywiaeth i astrodwristiaeth: mae gan ddwy ran o dair o Gymru awyr dywyll ac mae rhai ohonynt wedi cael eu cydnabod yn rhyngwladol fel gwarchodfeydd a mannau pwysig ar gyfer awyr dywyll.

32. Ysgrifennwyd y canllawiau newydd gan weithgor Cymru gyfan, gan gynnwys CNC, a chymerodd ddeuddeg mis i'w dwyn ynghyd, o gymeradwyaeth LIC hyd at eu cyhoeddi. Roedd y digwyddiad lansio, a gafodd ei ffrydio'n fyw ar YouTube, yn cynnwys cyflwyniadau ac arddangoswyr a chreodd deimlad cadarnhaol ac egni gwirioneddol ymhlith y mynychwyr, a oedd yn cydnabod effaith a phwysigrwydd y canllawiau yn ogystal â'r arbenigedd, angerdd a chydweithio cryf sy'n gysylltiedig â'u cynhyrchu.

Materion Mewnol

IR35

33. Cyflogwyd yr ymgynghorwyr allanol Deloitte ym mis Tachwedd 2024 i geisio cyrraedd sefyllfa y cytunwyd arni gyda CThEF. Mae eu gwaith yn cynnwys pedwar cam: cwblhawyd y cyntaf, sef adolygiad o ohebiaeth hanesyddol ac adolygiad rhagarweiniol o ddata i nodi dull gweithredu arfaethedig, ym mis Rhagfyr. Roedd yr ail gam yn cynnwys adolygiad manwl o'r trefniadau ymarferol ar gyfer rheoli sampl o gontractwyr, i nodi'r sefyllfa gyffredinol o ran statws contractwyr. Cwblhawyd hwn hefyd, a chyflwynwyd y canfyddiadau mewn cyfarfod arbennig o'r bwrdd yn ystod mis Chwefror.
34. Mae'r trydydd a'r pedwerydd cam yn cynnwys diweddarau CThEF ynghylch canlyniad penderfyniad y bwrdd ac ymateb i unrhyw gwestiynau dilynol gan CThEF. Bydd y pumed cam, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yn cynnwys Deloitte yn adolygu ein defnydd o fframwaith newydd a phrosesau diwygiedig.

Diweddariad Masnachol

35. Digwyddiad ansolfedd Clifford Jones Timber Ltd (Rhuthun), felin lifio sydd bellach yn gweithredu o dan endid busnes newydd. Mae rhai problemau cyfrifon pren gydag SDL Biomass Ltd a Western Bio-Energy (Fuels) Ltd gan ein bod yn rheoli rhwymedigaethau credyd. Mae perfformiad ymgodi pren yn araf oherwydd effeithiau ansolfedd cwsmeriaid, Storm Darragh a Storm Eowyn, yn ogystal â phythefnos o amser cludo a gollwyd oherwydd cyfnod o eira a rhew yn yr ucheldiroedd.

36. Ymatebodd y tîm Gwerthu Pren yn gyflym ar ôl Storm Darragh, gan brosesu amrywiadau mewn contractau pren i ganiatáu gwaith brys ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, gyda chwsmeriaid yn ein cefnogi i glirio rhwystrau ar lwybrau mynediad hanfodol.
37. Mae rhagolwg Incwm Pren Diwedd Blwyddyn wedi'i israddio i £31,597,621. Mae Storm Darragh a'r tywydd gwlyb diweddar wedi effeithio ar y farchnad a'r gyfradd anfon gyffredinol. Mae methiant i gael mynediad at lennyrch neu'r angen i ddileu coed a chwalwyd gan y gwynt fel blaenoriaeth wedi arwain at ymestyn rhai contractau, gan wthio incwm i'r flwyddyn ariannol nesaf.
38. Lanswyd ymgynghoriad gan LIC ar Strategaeth y Diwydiant Pren arfaethedig ym mis Ionawr a bydd yn dod i ben ar 16 Ebrill. Rydym yn gweithio ar draws adrannau i gyflwyno ymateb cytûn i'r cynnig.
39. Fe wnaethom gynnal ein Diwrnod Cyswllt Masnach Pren blynyddol ar Faes Sioe Frenhinol Cymru ym mis Chwefror. Roedd hwn yn ddigwyddiad ymgysylltu llwyddiannus gydag adborth cadarnhaol gan gwsmeriaid a chytunwyd ar sawl cam gweithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Cafwyd cyflwyniadau gan Confor, LIC ar Strategaeth y Diwydiant Pren, ac un o'n prif gwsmeriaid, Pontrilas, ar dueddiadau'r farchnad bren. Mae iechyd a diogelwch ar yr ystad a meintiau pren yn parhau i fod yn bryder parhaus i'n cwsmeriaid; fodd bynnag, fel y mae'r gostyngiad mewn incwm oherwydd effaith andwyol yn ei ddangos, mae angen inni gydbwysu anghenion y farchnad â chynaliadwyedd cyflawni ar gyfer CNC.

Diweddariad ar yr Achos dros Newid

40. Ym mis Chwefror, cyhoeddwyd llythyrau o'r broses baru a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr, ynghyd â chanlyniadau dethol cystadleuol. Roedd cydweithwyr na lwyddodd i sicrhau rôl drwy'r prosesau hyn yn cael eu rhoi mewn perygl o gael eu diswyddo a chynigiwyd mynediad â blaenoriaeth iddynt at unrhyw swyddi gwag a oedd yn weddill, cyn i'r rhain gael eu hagor ar gyfer recriwtio mewnol. Dechreuodd y cyfnod ymgeisio ar gyfer mynegi diddordeb ar 20 Chwefror a daeth i ben ar 9 Mawrth. Cytunwyd ar bob cam drwy ymgynghori â'r undebau llafur.
41. Yn ystod y cyfnod anodd hwn, rydym wedi cynnig cymorth penodol i gydweithwyr yr effeithir arnynt a'u rheolwyr, a byddwn yn parhau i wneud hynny dros y misoedd nesaf. Cynhaliwyd y cam mynegi diddordeb ochr yn ochr â chyfnod ymgynghori unigol 30 diwrnod i gynorthwyo cydweithwyr a oedd mewn perygl o golli eu swyddi i ystyried eu hopsiynau. Dosbarthwyd pecynnau ymgynghori unigol i bob rheolwr perthnasol, gan eu galluogi i gefnogi aelodau tîm yr effeithir arnynt drwy'r broses mynegi diddordeb ac ystyried amgylchiadau unigol, gan gynnwys yr opsiwn o ddiswyddo gwirfoddol.
42. Yn dilyn y ffenestr ymgeisio ar gyfer mynegi diddordeb, dechreuodd y broses o recriwtio'n agored i'r swyddi gwag oedd yn weddill.

43. Mae adolygiad ffurfiol o'n Gwasanaethau Galluogi yn parhau i archwilio cyfleoedd ar gyfer integreiddio pellach ac effeithlonrwydd yn y modd y mae'r swyddogaethau corfforaethol canolog hyn yn gwasanaethu'r sefydliad ehangach. Disgwylir adroddiad drafft erbyn mis Ebrill.
44. Mae ein prosiect Ymgorffori'r Newid wedi dechrau gyda'r nod o ymgorffori'r newidiadau a ragwelwyd gan yr achos dros newid yn effeithiol yn ein harferion gwaith sefydliadol a sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y newid.

Cyfathrebu

Cyfathrebu Corfforaethol

45. Mae'r tîm Cyfathrebu yn parhau i ddarparu cymorth wrth i'r broses achos dros newid mynd rhagddi, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ddigwyddiadau ac ymholiadau sy'n ymwneud â dyfodol y canolfannau ymwelwyr. Cefnogodd y tîm y tîm Masnachol i hyrwyddo'r broses o fynegi diddordeb ar gyfer Canolfan Ymwelwyr Ynys-las, ac mewn pedwar digwyddiad galw heibio cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod mis Ionawr. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i sicrhau bod hwb mewnwyd yr achos dros newid yn cael ei ddiweddarau'n barhaus a bod cymorth yn cael ei roi i hyrwyddo lansiad a chyflwyniad yr Adolygiad o'r Gwasanaethau Galluogi.
46. Rydym wedi parhau i ddarparu cymorth cyfathrebu i'r uned ar gyfer coed a chwalwyd gan y gwynt a sefydlwyd yn sgil Storm Darragh, gan dynnu sylw at ganslo digwyddiadau ralio ar yr ystad goetir a rheoli ymgysylltiad â phartneriaid wrth i'r broses adfer barhau.

Mae Cymunedau'n Gallu Gwrthsefyll Newid yn yr Hinsawdd

47. Roedd pumed pen-blwydd Storm Dennis yn gyfle i fyfyrio ar yr effaith y mae stormydd Chwefror 2020 – ac eraill ers hynny – wedi'i chael ar ein cymunedau, y cynnydd rydym wedi'i wneud mewn perthynas â'n gwasanaethau ar gyfer rhybuddio a hysbysu am berygl llifogydd, a'r angen i bawb chwarae eu rhan i liniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd.
48. Roedd ffocws y cyfryngau ar sut mae cymunedau wedi gwella a'u pryderon parhaus am berygl llifogydd yn y dyfodol – yn enwedig yn wyneb digwyddiadau llifogydd mwy diweddar – yn golygu bod rhai negeseuon anodd eu rheoli. Fodd bynnag, fe wnaeth ein hymgysylltiad â darlledwyr sicrhau sylw cytbwys a bod negeseuon allweddol ynghylch yr heriau o ran gwneud cymunedau'n wydn i newid yn yr hinsawdd yn cael eu trosglwyddo'n effeithiol.
49. Cafodd diweddariad ar gynnydd Cynllun Llifogydd Llanw Aberteifi sylw da yn y cyfryngau a rhoddodd gyfle i ailadrodd y negeseuon ynghylch yr hyn y gall pobl ei wneud eu hunain i leihau perygl llifogydd.

Llygredd yn Cael ei Atal Hyd yr Eithaf

50. Roedd ymgysylltu â'r gymuned a'r cyfryngau ynghylch ein cyfrifoldebau rheoleiddio mewn safleoedd tirlenwi yn ffocws yn ystod y cyfnod hwn. Rydym wedi parhau i ddarparu diweddariadau rhagweithiol trwy gylchlythyrau a thudalennau Citizen Space i fynd i'r afael â'r diddordeb cynyddol mewn arogleuon yn Safle Tirlenwi'r Hafod a'r honiad o arogleuon yn dychwelyd yn Withy hedge, gan sicrhau eglurder ynghylch ein rôl reoleiddio a'r mesurau gorfodi sy'n cael eu cymryd.
51. Roedd cyfathrebu hefyd yn canolbwyntio ar ein gwaith i leihau'r risg o lygredd amaethyddol. Denodd y cyhoeddiad am newidiadau i weithdrefnau gwaredu dip defaid ddiddordeb eang yn y cyfryngau ac ymateb y gymuned ffermio a gafodd y sylw pennaf, gan olygu bod rhai straeon yn anghytbwys. Bu'r tîm Cyfathrebu'n gweithio gyda'r BBC i sicrhau bod cynrychiolaeth ehangach o leisiau'n cael sylw yn eu darllediadau a bod negeseuon clir ar effaith amgylcheddol gwaredu dip defaid i'r tir. Yn ogystal, wrth i'r cyfnod gwaharddedig ar gyfer gwasgaru slyri a rhai mathau eraill o dail organig ar laswelltir ddod i ben ym mis Ionawr, roedd ein negeseuon yn atgoffa ffermwyr i gadw at y rheoliadau a chymryd y rhagofalon angenrheidiol i leihau'r risg o lygredd amaethyddol.
52. Darparwyd cymorth cyfathrebu i dynnu sylw at lwyddiant ein gwaith gorfodi yn ystod y cyfnod hwn. Roedd hyn yn cynnwys hyrwyddo erlyniadau llwyddiannus o gwmni adeiladu am lygru cyrsiau dŵr ym Mhen-y-bont ar Ogwr, tipio anghyfreithlon yng Nghoedwig Dyfi, ac erlyniad am storio gwastraff yn anghyfreithlon yng Nghaerllion. Fe wnaethom hefyd reoli diddordeb y cyfryngau mewn dau wrandawriad llys i Dŵr Cymru a restrwyd yn wreiddiol ar gyfer y cyfnod hwn, er iddynt gael eu gohirio yn y pen draw.
53. Mae cyfres o bodlediadau sy'n tynnu sylw at waith tîm yr amgylchedd yng Ngheredigion yn parhau, gyda phennod mis Chwefror yn arddangos y gwaith i ddiogelu cynefinoedd sydd wedi dod i'r amlwg o gloddfeydd metel segur.

Mae Natur yn Gwella

54. Cyhoeddwyd ein Hadroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) interim ar ddiwedd 2024, gan nodi dechrau curiad cryf o gyfathrebu ar gyfer y flwyddyn i ddod wrth i ni symud tuag at lansio'r adroddiad llawn nesaf. Byddwn yn parhau i weithio gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn plethu ein cyfathrebiadau wrth iddynt gyhoeddi a hyrwyddo eu hadroddiad cynnydd eu hunain.
55. Cafodd llwyddiannau ein prosiectau adfer natur eu harddangos yn ystod y cyfnod hwn. Tynnwyd sylw at waith prosiect partneriaeth Natur am Byth i warchod y rhywogaeth o löyn byw sydd fwyaf mewn perygl yn y DU, sef y brith brown, yn ystod ymweliad gan y Prif Weinidog, Eluned Morgan AS, ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd, hyrwyddwyd prosiect i wella ansawdd dŵr yn afon Cothi trwy raglen Pedair Afon LIFE.

56. Rydym yn parhau i amlygu pwysigrwydd ein gwaith partneriaeth i gefnogi adferiad byd natur. Ym mis Ionawr, cydlynodd CNC y cyfathrebiadau ynghylch lansio menter y Môr a Ni, gan dynnu sylw at ystod o brosiectau morol sydd ar y gweill sy'n codi ymwybyddiaeth o'n dylanwad ar y môr a dylanwad y môr arnom ni. Roedd hyrwyddo'r cod casglu abwyd newydd gyda chymorth y Gronfa Rhwydweithiau Natur hefyd yn gyfle i dynnu sylw at y manteision y gallai arferion gwell eu rhoi i gynefinoedd a rhywogaethau arfordirol.

Crynodeb o Gwynion, Canmoliaeth a Gohebiaeth

57. Rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Chwefror 2025, canolbwyntiodd cyfran sylweddol o ohebiaeth gyhoeddus ar ymdrechion adfer ar ôl stormydd, yn enwedig yn dilyn Storm Bert ddiwedd mis Tachwedd a Storm Darragh ddechrau mis Rhagfyr. Roedd y themâu allweddol yn cynnwys:
- Amseroedd ymateb: Codwyd pryderon am ein hymateb ym Mhontypridd, lle bu llifogydd mewn eiddo.
 - Negeseuon llifogydd: Daeth cwynion i'r amlwg ynghylch methiant i dderbyn negeseuon llifogydd oherwydd gwall gweinyddol yn ymwneud â chyfrifon cwsmeriaid dyblyg. Mae'r mater hwn bellach wedi'i unioni.
 - Rheoli tir: Amlygodd adborth faterion yn ymwneud ag arferion rheoli tir yn dilyn Storm Darragh.
 - Pryderon amgylcheddol: Derbyniwyd cwynion ynghylch gweithrediadau Safle Tirlenwi'r Hafod a Kronospan. Rydym bellach yn cefnogi Pennaeth Gweithrediadau'r Gogledd-ddwyrain gyda gohebiaeth yn ymwneud â'r Hafod er mwyn helpu i leihau'r baich ar staff fel y gallant ganolbwyntio ar eu gwaith rheoleiddio craidd.
58. Yn ogystal, mae tri chais Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol wedi'u cyflwyno ynghylch eiddo sydd dan ddŵr yng Nghymru. Rydym hefyd wedi cefnogi'r Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd i baratoi ymateb ar gyfer adolygiad llifogydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd yn dilyn Storm Bert a Storm Darragh.
59. Ar nodyn cadarnhaol, rydym wedi parhau i dderbyn canmoliaeth, yn enwedig am yr ymateb eithriadol ar ôl y storm yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Ers mis Rhagfyr, mae pum canmoliaeth gyhoeddus wedi canmol ymroddiad ac effeithlonrwydd ein timau, yn enwedig mewn lleoliadau poblogaidd fel Niwbwrch.
60. Ym mis Chwefror, cawsom ganmoliaeth bellach i staff yn Niwbwrch, gan gynnwys stori arbennig o gadarnhaol am aelod o staff a helpodd i aduno teulu gyda'i lystad ar ôl iddo fynd ar goll a syrthio ac nad oedd yn gallu dod o hyd i'w ffordd yn ôl atynt. Mynegodd y teulu ei ddiolch dwysaf, gan nodi y gallai'r sefyllfa fod wedi dod i ddiwedd gwahanol iawn.

61. Cawsom ganmolïaeth hefyd gan Aelod o'r Senedd, yr oedd ein cyfathrebiadau ynghylch Storm Darragh a pha mor effeithiol y gwnaethom ddiweddarau popeth wedi creu cryn argraff arno, gan ganiatáu iddo gefnogi ei etholwyr yn well.
62. Tynnodd canmolïaeth arall sylw at broffesiynoldeb ein hymateb: *"Diolch am eich cyflymder a'ch effeithlonrwydd wrth ddatrys yr hyn sy'n gorfod bod yn fater hynod o fach yng nghyd-destun trychineb mawr. Diolch i chi am adfer ychydig o ffydd ym mhroses y llywodraeth a diolch am fod yn dda yn eich swydd."*

Rhagolwg

Dydd Mercher 9 Ebrill – Diwrnod Cynllunio'r Bwrdd

Dydd Mercher 16 Ebrill – Galwad am y Newyddion Diweddaraf gan y Bwrdd

Dydd Iau 17 Ebrill – Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd

Dydd Iau 1 Mai – Pwyllgor Cyllid

Dydd Mercher 7 Mai – Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth

Dydd Iau 8 Mai – Ymweliad Safle'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig

Dydd Iau 15 Mai – Pwyllgor Ystad Tir

Dydd Mercher 21 / Dydd Iau 22 Mai – Cyfarfod Mis Mai'r Bwrdd

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	20 Mawrth 2025
Teitl y papur:	Diweddariad i'r Bwrdd gan y Pwyllgor Cyllid
Cyfeirnod y papur:	25-03-B24
Noddwyd y papur gan:	Helen Pittaway, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Paratowyd y papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynwyd y papur gan:	Helen Pittaway, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Diben y papur	Er gwybodaeth
Crynodeb	Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Cyllid – 6 Chwefror 2025

Cefndir

Mae'r papur hwn o gymorth i'r cadeirydd wrth roi diweddariad llafar i'r bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 6 Chwefror 2025. Gall cofnodion y cyfarfodydd hyn fod ar gael i unrhyw aelod o'r bwrdd sydd â diddordeb.

Diweddariad Perfformiad Ariannol

1. Cyflwynwyd diweddariadau i'r Adroddiad Perfformiad Ariannol, gan gynnwys gostyngiad yn y rhagolwg incwm pren, gadael swyddfeydd Tŷ Cambria, y risgiau sy'n ymwneud â thanwariant, ac addasiadau cyllideb refeniw y cytunwyd arnynt gan y Tîm Gweithredol.
2. Argymhellodd y Pwyllgor Cyllid y dylai CNC adolygu ymgynghoriad Strategaeth Ddiwydiannol Pren Llywodraeth Cymru (LIC) a chodi'r heriau o ran cynhyrchu pren a'r cynnydd tebygol mewn heriau oherwydd effeithiau newid hinsawdd. Yn dilyn ymholiad, esboniwyd mecanwaith incwm pren LIC.

Diweddariad ar y Gyllideb a Chynllunio Busnes 2025-26

3. Cyflwynwyd diweddariad i gyllideb 2025-26, gan gynnwys yr incwm disgwyliedig, a oedd yn adlewyrchu newidiadau diweddar i gyllidebau cronfeydd dŵr a'r argyfyngau natur a hinsawdd. Darparwyd diweddariadau pellach i'r gyllideb ar gyfer tomenni glo,

datgarboneiddio, gorfodi, cyllid Deddf Cydsyniad Seilwaith Cymru, ac ymarfer y gyllideb.

4. Trafododd y pwyllgor bwysigrwydd setliadau cyllidebol tymor hwy i gynorthwyo cynllunio busnes ac awgrymodd y gellid defnyddio cytundebau lefel gwasanaeth i helpu i ddyrannu'r gyllideb.
5. Amlinellwyd cynnig Cynllun Busnes 2025-26. Roedd hwn yn cynnwys elfennau a fyddai'n aros yr un fath ag yn 2024-25 ac eitemau ychwanegol a fyddai'n cael eu cynnwys. Amlygwyd hefyd gyd-destun datblygu'r cynllun ac esblygiad cynllun 2024-25.
6. Cefnogodd y Pwyllgor Cyllid y dull gweithredu a chydabod yr heriau o ran datblygu cynllun busnes a oedd yn cyflawni gwahanol swyddogaethau ac yn adrodd ar wahanol lefelau. Roedd y cynllun busnes yn ddull pragmatig o adrodd ar sut mae CNC wedi cyflawni yn erbyn camau'r amcanion llesiant i'w cymryd. Yr uchelgais fyddai datblygu cynllunio busnes ac adrodd ymhellach yn y dyfodol.
7. Awgrymodd y pwyllgor y dylid ychwanegu metrigau busnes fel arfer ac y dylid ystyried gwerth diwylliannol targedau a oedd yn ddigon heriol i adlewyrchu heriau'r argyfyngau newid hinsawdd a natur.

Adolygiad Blynyddol o Daliadau

8. Cyflwynwyd crynodeb o gynigion taliadau rheoleiddio 2025-26, yr adborth o'r ymgynghoriad, a'r amserlen a'r camau nesaf.
9. Yn dilyn ymholiad gan y pwyllgor, cadarnhawyd nad oedd trwyddedu rhywogaethau wedi derbyn unrhyw adborth a fyddai'n peri i'r cynnig beidio â mynd rhagddo.
10. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn gefnogol i'r cynigion, ond holodd ynghylch cloddio chwarel pan oedd o fewn elfen safle o'r cynigion adnoddau dŵr. Roedd y tîm wedi cytuno i adolygu'r cynnig yn unol â'r sylwadau.
11. Cadarnhawyd, yn dilyn yr ymgynghoriad, nad oedd y taliadau wedi'u newid. Cymeradwyodd y Pwyllgor Cyllid y cynigion.

Papur Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru

Dyddiad y cyfarfod:	20 Mawrth
Teitl y papur:	Cyd-ddiweddariad gan y Pwyllgor Ystad Tir a'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd
Cyfeirnod y papur:	25-03-B12
Noddwyd y papur gan:	Calvin Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Ystad Tir; Pete Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd
Cyflwynwyd y papur gan:	Calvin Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Ystad Tir
Diben y papur:	Er gwybodaeth
Crynodeb:	Rhoi trosolwg o gyfarfod ar y cyd y Pwyllgor Ystad Tir a'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd a gynhaliwyd ar 11 Chwefror

Rheoli ystad CNC a llifogydd

1. Daeth y Pwyllgor Ystad Tir a'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd at ei gilydd ar gyfer trafodaeth strategol ar sut y gallai'r Gwasanaeth Rheoli Perygl Llifogydd, y Gwasanaeth Masnachol a'r Gwasanaeth Stiwardiaeth Tir weithio gyda'i gilydd. Cyflwynwyd y cyfleoedd a'r heriau o fewn rheolaeth y tir yn ein gofal, ac atebion sy'n seiliedig ar natur i gynorthwyo'r Gwasanaeth Rheoli Perygl Llifogydd ynghyd â gwaith a wnaed ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ers argymhellion yr adolygiad llifogydd yn Chwefror 2020. Roedd gwaith diweddar yn cynnwys dadansoddiad o effaith cwmpo coed, y system TGCh newydd, a'r rhaglen adfer mawn.
2. Bu aelodau'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd a'r Pwyllgor Ystad Tir yn trafod amrywiaeth o elfennau, gan gynnwys y canlynol: strategaeth ddiwydiannol newydd ar gyfer pren gan Lywodraeth Cymru, yr angen am fecanweithiau i integreiddio dadansoddiad cost a budd mewn ffordd gyfannol ar draws gwahanol amcanion, cyfleoedd a chyllid, buddion rheoli coedwigoedd integredig ochr yn ochr â lleihau'r perygl o lifogydd, partneriaethau, enghreifftiau o waith gweithredol parhaus a phwysigrwyd tystiolaeth.

Trafodaeth am yr ardaloedd draenio mewnol

3. Rhoddwyd cyd-destun gweithredol, ariannol a daearyddol yr ardaloedd draenio mewnol i'r pwyllgorau. Trafodwyd yr ardaloedd draenio mewnol, yn cynnwys a oeddent yn diwallu anghenion pob rhanddeiliad, opsiynau posibl ar gyfer rheoli yn y dyfodol, y gwerth o gynnal adolygiad o'r ardaloedd draenio mewnol a'r angen am fewnbwn allanol. Trafodaeth fewnol oedd hon, ac ni fyddai'n arwain at newidiadau i'r ffyrdd presennol o weithio.

Adroddiad y penaethiaid busnes

Adroddiad y Pennaeth Datblygu Masnachol Cynaliadwy

4. Cafodd y pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am y prif weithgareddau masnachol, yn cynnwys ynni adnewyddadwy, cynnig posibl i'r farchnad yng Nghwm-carn, Mynydd Cilfâi, cydweithrediad ar brosiect talu am wasanaethau ecosystemau gyda chydweithwyr Gweithrediadau, a rhagolygon y farchnad pren.
5. Bu'r Pwyllgor Ystad Tir yn trafod seilwaith gwyrdd, ac awgrymwyd y dylai'r Tîm Masnachol ystyried y cyfleoedd yn y gwarchodfeydd natur cenedlaethol. Tynnwyd sylw at y tebygrwydd rhwng y prosiect talu am wasanaethau ecosystemau a chynllun rheoli afon Hafren uchaf. Gofynnwyd am ddiweddariadau rheolaidd i'r pwyllgor am y materion hyn a'r strategaeth fasnachol newydd ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Adroddiad y Pennaeth Stiwardiaeth Tir

6. Tynnwyd sylw at y difrod sylweddol a achoswyd gan Storm Darragh. Gallai gymryd hyd at dair blynedd i glirio'r difrod, ac effeithiwyd ar ryw 700 hectar o dir. Darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf hefyd am fonitro moch gwyllt a'r strategaeth hamdden.
7. Awgrymodd y pwyllgor y dylid cynnal asesiad o'r boblogaeth moch gwyllt, a nodwyd bod nifer fach o ddigwyddiadau chwaraeon moduro wedi'u canslo oherwydd difrod y storm. Mynegwyd pryderon ynghylch yr oedi wrth adnewyddu cynlluniau adnoddau coedwigoedd, a thrafodwyd yr opsiynau ar gyfer y strategaeth hamdden.

Edrych ymlaen

8. Bu'r pwyllgor yn trafod cael cyfarfod arall ar y cyd â'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd ym mis Hydref.

Papur Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru

Dyddiad y cyfarfod:	20 Mawrth 2025
Teitl y papur:	Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid
Cyfeirnod y papur:	25-03-B13
Noddwyd y papur gan:	Mark McKenna, Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid
Paratowyd y papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynwyd y papur gan:	Mark McKenna, Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid
Diben y papur:	Er gwybodaeth
Crynodeb:	Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd am gyfarfod y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2025

Cefndir

1. Mae'r diweddariad hwn i'r bwrdd yn ymwneud â chyfarfod rhithiol y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid a gynhaliwyd ar 19 Chwefror. Gall aelodau'r bwrdd gyrchu holl bapurau a chofnodion y pwyllgor drwy'r porth Diligent.
2. Byddai amcanion cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori yn amcanion y bwrdd a'r cadeirydd eleni.

Diweddariad llafar ar y risgiau a phroblemau presennol

3. Rhoddwyd adroddiadau llafar i'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid ar y risgiau a phroblemau presennol. Roedd y rhain yn cynnwys diweddariadau ar gynnydd y platform cwsmeriaid, y cyfleoedd ar gyfer llwybrau gwasanaeth cwsmeriaid eraill, a'r penderfyniad i gyfuno tîm y Ganolfan Rheoli Digwyddiadau a thîm y Ganolfan Cwsmeriaid. Roedd y statws gwyrdd ar system coch, melyn, gwyrdd yr adroddiadau perfformiad chwarterol cwsmeriaid yn galonogol, ac amlinellwyd y dulliau o brofi canfyddiad y cyhoedd a datblygu eiriolaeth. Roedd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid yn croesawu'r ffaith bod cydweithwyr yn ymgysylltu â'r BBC i archwilio cyfleoedd i roi mwy o sylw i weithgareddau CNC yn eu hadroddiadau darlledu.

4. Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid ar eitemau yn ymwneud â rheoli pobl a recriwtio, a'r heriau sy'n dal i gael eu hwynebu. Nodwyd adnoddau cynllunio ar gyfer y dyfodol, a rheoli disgwyliadau, ac roedd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid yn deall yr angen i alinio cynllunio busnes, cynllunio pobl a chynllunio ariannol. Croesawyd y berthynas dda a pharhaus â'r undebau llafur.

Diogelwch ymwelwyr a Bro'r Sgydau

5. Rhoddwyd trosolwg i'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid o'r dull a'r datblygiadau o ran diogelwch ymwelwyr a Bro'r Sgydau, a deallwyd natur gymhleth a dynamig yr ardal. Croesawyd y prosiect pedair blynedd, a thynnwyd sylw at y gwelliannau i seilwaith rhai safleoedd. Canmolwyd y tîm ar y cynnydd a wnaed, ac awgrymodd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid y dylid rhannu dysgu a chydweithio â thrydydd partïon. Byddai dylanwadau'r cyfryngau cymdeithasol, cadw negeseuon yn gyfredol, ynghyd ag ymgysylltu â'r gymuned yn bwysig.

CNC2030

6. Rhoddwyd diweddariad i'r pwyllgor ar gynnydd yr amcan llesiant 4 newydd. Roedd capasiti ac adnoddau yn her, ac roedd dull integredig yn cael ei ddilyn ar gyfer darparu adroddiad.

Amrywiaeth a chynhwysiant – adroddiad blynyddol 2024-2025 ac adroddiad ar y bwlch cyflog

7. Rhoddwyd trosolwg o'r adroddiad i'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid, a nodwyd y cyfleoedd mewn recriwtio i wneud y gweithlu yn fwy amrywiol a gwella arweinyddiaeth gynhwysol. Roedd hyfforddiant gwylwyr gweithredol ychwanegol yn cael ei ddatblygu. Byddai meincnodi yn erbyn sefydliadau eraill yn bwysig. Bu'r pwyllgor yn canmol gwaith y tîm o ran ymgysylltu â rhwydweithiau staff.
8. Awgrymodd y pwyllgor nifer o newidiadau o ran fformadu, ac awgrymwyd ychwanegu ffeithluniau i'r adroddiad, er bod y pwyllgor yn hapus i'w gymeradwyo.

Cynllun archwilio mewnol

9. Bu'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid yn trafod y cynllun archwilio mewnol a oedd yn berthnasol iddynt, a rhoddwyd gwybodaeth am statws yr adroddiadau dilynol ar gynnydd. Nodwyd, trwy newid ein mynegiant i gefnogi gwelliannau, y gallai'r canfyddiad o archwiliadau mewnol ar draws y sefydliad wella.
10. Cytunodd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid y dylai holl bwyllgorau'r bwrdd gael gweld y cynllun archwilio mewnol.

Eitemau er gwybodaeth

11. Croesawodd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid yr adroddiadau cyfathrebu chwarterol, yr wybodaeth ynghylch rheoli pobl, a'r diweddariad i bolisiâu'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid.

Edrych ymlaen ac unrhyw fater arall

12. Trafodwyd eitemau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, a chytunwyd y byddai cynllunio strategol o'r gweithlu yn eitem sylweddol yng nghyfarfod mis Mehefin, ac efallai y byddai cyfarfod mis Medi yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb i gynnwys ymweliad â safle i Fro'r Sgydau.
13. Hwn oedd cyfarfod olaf y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid i Dr Rosie Plummer, a diolchwyd iddi am roi o'i hamser ac am ei chyfraniad i'r pwyllgor.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	20 Mawrth 2025
Teitl y papur:	Diweddariad y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig i'r Bwrdd
Cyfeirnod y papur:	25-03-B14
Noddwyd y papur gan:	Dr Rosie Plummer, Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig
Paratowyd y papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynwyd y papur gan:	Dr Rosie Plummer, Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig
Diben y papur	Er gwybodaeth
Crynodeb	Mae'r crynodeb hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2025.

Cefndir

1. Mae'r crynodeb hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion y dylent, ym marn cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig, gael eu dwyn i sylw'r bwrdd cyfan yn dilyn cyfarfod diweddaraf y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig, a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2025.
2. I gael rhagor o fanylion, gall holl aelodau'r bwrdd weld agendâu, papurau a chofnodion y pwyllgorau drwy borth Diligent.

Eitemau ar gyfer y cyfarfod cyhoeddus

Prosiect Dalgylch Arddangos Teifi

3. Rhoddwyd cefndir i Brosiect Dalgylch Arddangos Teifi, gan gynnwys y rhesymau dros ddewis y dalgylch a'i statws amgylcheddol. Rhoddwyd diweddariad ar y cydweithio a'r partneriaethau, gweithgareddau cyfredol y prosiect, gan gynnwys cynnig Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, o'r enw Teifi Fyw, a'r themâu a phecynnau gwaith posibl. Darparodd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig awgrymiadau i roi sylw iddynt, gan gynnwys gan randdeiliaid, tynnodd sylw at y memorandwm cyd-ddealltwriaeth a gafodd ei ymestyn yn ddiweddar rhwng CNC, Cadw a Heneb, ac awgrymodd y dylid ystyried confensiwn Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd

Unedig (UNESCO) ar dreftadaeth ddiwylliannol anniriaethol mewn perthynas â'r prosiect.

Diweddariad ar y Rhaglen Safleoedd Gwarchodedig

4. Cyflwynwyd y newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig ar yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth Gweinidogol; adolygiad Archwilio Cymru o'r dull o ddynodi SoDdGAau yn CNC; goblygiadau argymhellion Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith i CNC; y Bil Llywodraethu Amgylcheddol, Egwyddorion a Thargedau Natur; ymchwiliad Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru i safleoedd gwarchodedig; a chmau gweithredu CNC ar safleoedd gwarchodedig.
5. Trafododd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig adolygiad Archwilio Cymru a chodwyd pryderon ynghylch cyflymder y gwaith ar gyrraedd targedau 30 erbyn 30. Byddai her o ran blaenoriaethu dynodiadau a sut i asesu'r risgiau. Byddai angen gwahanol ffyrdd o weithio oherwydd maint y tîm a disgwyliadau cyflawni.
6. Darparwyd diweddariad hefyd ar y cytundebau rheoli tir, gyda'r cytundebau rheoli tir presennol yn cael eu hariannu hyd at 31 Rhagfyr 2025. Nodwyd ei bod yn annhebygol y byddai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnwys pob un o'r cynlluniau rheoli tir sy'n dod i ben ar 1 Ionawr 2026. Nodwyd y tebygolrwydd o danwariant ar y dyraniad a mynegwyd gofid bod dynodiadau diweddar, gan gynnwys Coedwig Dyfi, yn disgyn y tu allan i'r dynodiad. Fodd bynnag, byddai rhai cytundebau yn parhau lle'r oedd cytundebau pum mlynedd; roedd gan y rhain gymalau terfynu, a allai ganiatáu i CNC drosglwyddo trefniadau i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy os dyna oedd dymuniad y perchnogion tir. Byddai perchnogion tir hefyd a fyddai angen rhyw fath arall o gymorth ariannol os nad oeddent yn gymwys ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Llythyr Rhybuddio am Safle Gwarchodedig

7. Trafododd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig y llythyr a'i nodi. Awgrymwyd y dylai'r llythyr rhybuddio gael ei adolygu gan y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd, gan ei fod yn tynnu sylw at fater yn ymwneud â chynnal a chadw asedau llifogydd a'r tensiwn rhwng rheoli asedau, gwaith cynnal a chadw, a gofynion safleoedd gwarchodedig.

Newid Ffin ACA Aber Afon Dyfrdwy

8. Trafododd a nododd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig y newid i ffin ACA Aber Afon Dyfrdwy.

Llywodraethu'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig

9. Bu'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig yn trafod ac yn cytuno ar y rhagolwg.

Unrhyw Fater Arall

10. Roedd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig yn cydnabod ac yn croesawu cyhoeddi'r Adroddiad Interim ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR).
11. Nododd Geraint Davies mai Caernarfon oedd noddwr Sioe Frenhinol Cymru, a thynnodd sylw at gyfle digwyddiad ffermio mynydd sydd ar ddod i staff CNC ac aelodau'r bwrdd.
12. Diolchodd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig a'r prif weithredwr dros dro i Dr Rosie Plummer a Geraint Davies am eu hamser a'u mewnbwn gwerthfawr i'r pwyllgor a'r gefnogaeth yr oeddent wedi'i rhoi i'r holl staff a gymerodd ran.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	20 Mawrth 2025	
Teitl y papur:	Diweddariad ar Fforwm Rheoli Tir Cymru	
Cyfeirnod y papur:	25-03-B23	
Noddwyd y papur gan:	Yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru	
Paratowyd y papur gan:	Bronwen Martin, Cynghorydd Arbenigol: Amaethyddiaeth	
Cyflwynwyd y papur gan:	Yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru	
Diben y papur	Er gwybodaeth	
Y broses gymeradwyo/ymgynggori:	Cyfrifoldeb: Pwy sydd wedi datblygu'r papur/proses a phwy sydd wedi cael mewnbwn?	
	Yn atebol: Pwy sy'n atebol am y gymeradwyaeth derfynol? Pwy fydd yn cymeradwyo neu y gofynnir iddo gymeradwyo?	
	Ymgynghorwyd: Gyda phwy yr ymgynghorwyd hyd yma? Pan fydd angen cymeradwyaeth, a yw hon ar waith? A fydd angen ymgynghori pellach?	
	Hysbyswyd: Pwy sydd wedi cael gwybod neu pwy sydd angen ei hysbysu ymhellach am y gwaith?	
Crynodeb	Rhowch grynoded o ba ystyriaethau, penderfyniadau a chymau gweithredu yr ydych yn eu ceisio gan y pwyllgor.	

Fforwm Rheoli Tir Cymru

1. Mae cyfarfodydd Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cael eu cynnal bedair gwaith y flwyddyn, ac maen nhw'n rhoi cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ynghyd â sefydliadau eraill sy'n aelodau o'r fforwm, rannu gwybodaeth, nodi diddordebau cyffredin a chydweithio mewn ffordd gydweithredol ar faterion yn ymwneud â rheoli tir mewn ffordd strategol.

[Cyfoeth Naturiol Cymru – Fforwm Rheoli Tir Cymru](#)

Diweddariad

Cyfarfod 9 Rhagfyr 2024

2. Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf Fforwm Rheoli Tir Cymru ddydd Llun, 9 Rhagfyr 2024. Roedd y cyfarfod yn canolbwyntio ar goedwigaeth ac yn cynnwys y cyflwyniadau/trafodaethau canlynol:
 - Coedwig Genedlaethol Cymru (Stacey Delbridge, CNC)
 - Cynllun Ffermio Cynaliadwy:Coedwigaeth (Naomi Mattiessen, Llywodraeth Cymru)
 - Strategaeth y Diwydiant Pren a'r Cynllun Sgiliau Cysylltiedig (Gail Merriman ac Ann Burgoyne, Llywodraeth Cymru)
 - Rheoli Ceirw a Gwiwerod (Chris Tucker, CNC)
 - 'Astudiaeth achos o greu coetir' (Iwan Parry, Tilhill)
 - 'Sut mae'r sector coedwigaeth preifat yn gweithio ochr yn ochr ag CNC' (Iwan Lloyd Williams, Confor)
3. Cynhelir cyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Tir Cymru ar 17 Mawrth 2025.
4. Unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u hadolygu, ac y cytunwyd arnynt yn ffurfiol gan yr aelodau, cânt eu cyhoeddi ar dudalen Fforwm Rheoli Tir Cymru ar wefan CNC.

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

5. Prif ddiben yr is-grŵp hwn o fewn Fforwm Rheoli Tir Cymru yw nodi cyfleoedd i gael gwared ar lygredd amaethyddol yng Nghymru wrth fynd ati i gynnal sector ffermio ffyniannus. Mae'n gwneud hyn drwy ddilyn pum prif thema (cyngor a chyfarwyddyd, dull gwirfoddol, rheoleiddio, arloesi, a buddsoddi) a thrwy weithio ar y cyd ag amrywiaeth o randdeiliaid yn y meysydd amaethyddol ac amgylcheddol.

[Cyfoeth Naturiol Cymru – Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol.](#)

Unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u hadolygu, ac y cytunwyd arnynt yn ffurfiol gan yr aelodau, cânt eu cyhoeddi ar dudalen is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar wefan CNC.

Diweddariad

Cyfarfod 20 Ionawr 2025

6. Roedd cyfarfod is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2025 yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:
 - Trafodaeth: Adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA – Ymunodd cynrychiolwyr o Fyrddau Rheoli Maethynnau Afonydd ACA â'r cyfarfod i drafod Adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA, argymhellion dilynol, a sut y gallai'r adroddiad helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Cynlluniau Rheoli Maethynnau ar gyfer y dalgylchoedd ACA. Defnyddiodd y grŵp y cyfarfod hwn hefyd fel cyfle i nodi pwy a all frw ymlaen / sut y gellir bwrw ymlaen â rhai o'r argymhellion.
 - Eitem sefydlog: Proses adolygu pedair blynedd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 – Darparodd Dr Susannah Bolton, y cadeirydd annibynnol, ddiweddariad cryno ar y cynnydd ar ddatblygiad yr adroddiad.

Chwefror 2025

7. Yn anffodus, cafodd y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer mis Chwefror ei ganslo oherwydd amgylchiadau annisgwyl.

Mawrth 2025

8. 3 Mawrth 2025 – Mae CNC wedi penderfynu integreiddio'r is-grŵp i brif Fforwm Rheoli Tir Cymru. Bydd llythyr yn rhoi gwybod am y penderfyniad hwn yn cael ei ddosbarthu i aelodau is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ddydd Llun, 3 Mawrth 2025.
9. 4 Mawrth 2025 – Mae CNC wedi trefnu gweminar ar gyfer aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru, is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru, Cyswllt Amgylchedd Cymru, Fforwm Pysgodfeydd Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru ar 4 Mawrth. Bydd y weminar yn trafod data asesiad cydymffurfedd ansawdd dŵr afonydd ACA a dosbarthiad interim y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer 2024. Bydd CNC yn rhyddhau dosbarthiad interim Rheoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr ac asesiad cydymffurfedd ansawdd dŵr afonydd ACA ar gyfer 2024 ar 13 Mawrth 2025. Mae hon yn set ddata ansawdd dŵr allweddol a dyma'r tro cyntaf i ni gyhoeddi'r ddau gyda'n gilydd. Bydd y dosbarthiad interim yn rhoi'r trosolwg gorau o statws amgylchedd dŵr Cymru.

Papur Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru

Dyddiad y cyfarfod:	20 Mawrth 2025
Teitl y papur:	Adroddiad Perfformiad Cyllid
Cyfeirnod y papur:	25-03-B17
Noddwyd y papur gan:	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Paratowyd y papur gan:	Rob Bell, Pennaeth Cyllid; Mark Collins, Rheolwr Cyllid Busnes
Cyflwynwyd y papur gan:	Rob Bell, Pennaeth Cyllid
Diben y papur:	Cymeradwyaeth (newid yn y rhagolygon ariannol) / Trafodaeth (perfformiad ariannol)
Crynodeb:	Cymeradwyo: Newid yn y rhagolygon diweddaraf o £275.3 miliwn i'r £294.6 miliwn a ragwelir Craffu ar: Perfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Ionawr 2025

Cefndir

- Mae'r adroddiad perfformiad cyllid yn rhoi manylion am gynnydd ar draws y gwahanol fathau o incwm, gwariant a rhaglenni. Mae Atodiad A yn crynhoi'r prif negeseuon mewn perthynas â'r canlynol:
 - Newid i ragolwg y gyllideb o'i gymharu â'r rhagolwg blaenorol a gymeradwywyd (mis Tachwedd).
 - Perfformiad hyd at ddiwedd mis Ionawr 2025.

Risgiau a chyfleoedd

- Mae gennym risg wedi'i restru yng nghofrestr risg Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfer 'gwariant yn ystod y flwyddyn'. Mae'r risg hwn hefyd yn cysylltu â'r risg strategol, "methu â chyflawni sefydlogrwydd ariannol". Ar gyfer y

flwyddyn ariannol hon, mae'r risg o orwario wedi'u lliniaru gan y camau gweithredu a gymerwyd gan y tîm gweithredol, a'r cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

3. Mae'r goblygiadau ehangach fel a ganlyn:

- (a) **Cyllid:** Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â pherfformiad ariannol CNC. Mae gennym risg wedi'i restru yng nghofrestr risg Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.
- (b) **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** Mae pob elfen o'r gyllideb yn cyfrannu at un neu lawer o'n hamcanion llesiant.

Y camau gweithredu nesaf

- 4. Bydd y tîm gweithredol yn parhau i fonitro'r prif risgiau yn y gyllideb.
- 5. Cynhyrchir yr adroddiad hwn bob deufis ar gyfer y bwrdd a'r tîm gweithredol.

Argymhelliad

- 6. Bod y bwrdd yn cymeradwyo'r newidiadau i'r rhagolwg diweddaraf, o £275.3 miliwn i £294.6 miliwn.
- 7. Bod y bwrdd yn craffu ar y perfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Ionawr 2025.

Rhestr atodiadau

Atodiad A – adroddiad ar y perfformiad ariannol



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales



NRW Board – 19th March 2025

Financial Performance Report – January 2025

Content and Key Messages

Update will cover:

1. Update on the latest forecast changes as at January 2025 compared to the opening budget. Endorse change in forecast since the last revised forecast was agreed - from £275.3m to £294.6m.

2. Financial Performance as at January 2025.

3. Update on contingencies and under/over programming.

4. The main risks and opportunities to our budget this year are covered in a separate page.

5. Update on funding provided by Welsh Government

Messages:

1. The overall income forecast has increased by £19.2m, due to changes in external funding (-£0.2m), charges (-£0.8m), commercial (-£1.8m), use of charge balances (-£1.7m) and Grant in Aid (£23.7m). The decrease in external funding relates to the LIFE programme and Natural Flood Management projects (£0.5m and £0.3m respectively), which are offset by additional WG Reservoir grant income (£0.6m). The commercial element is primarily due to a reduction in timber (£1.5m) and retainable wind energy income (£0.4m). The charges and use of charge balances changes are linked to the recent review of income corporate costs and pay. The forecasted end of year position on charges has changed considerably, moving from a deficit of £1.8m to £0.1m and can be seen by the reduced draw on reserves. The GiA increase reflects additional funding for IR35 (£16m), pension payment (£6.9m), repayment no longer required to WG for DCF (£0.6m) and an increase in WG Grants (£0.2m).

2. Expenditure at the end of January equates to £186.9m against a planned spend of £190.0m, an underspend to date of £3.1m (2%). This is mainly due to an underspend on non staff costs (£1.8m), capital (£0.9m) and revenue projects (£0.4m). The non staff element is predominantly linked to Ops (£1.3m) and EPP (£0.4m). The Ops element is mainly linked to Land Stewardship activities, due to a delay in the restocking programme. The EPP element reflects lower than anticipated spend across Regulation (£0.1m), Evidence (£0.2m) and Land Stewardship (£0.1m). There is a significant proportion of the overall Land Stewardship programme left to be utilised across Ops and EPP, with £6.3m (35%) and £0.5m (32%) remaining respectively. Across all Directorates there remains considerable proportions of the non staff budget still to be spent; CSD £1.3m (28%) excluding the wind energy payment, CCC £0.2m (42%), EPP £9.8m (34%), FCS £5m (20%) excluding NRW contingency balances and Ops £9.2m (36%). The capital element reflects under spend within the Flood (£0.5m) and Externally Funded (£0.2m) projects programmes. The Flood programme currently has a surplus of £0.8m. We are exploring with WG the possibility of utilising the funding for other capital activities within NRW. The revenue project element is linked to Externally Funded, Land Stewardship and Water Resources programmes which are all under spent by £0.1m respectively. The overall income position is broadly in line with the budget to date, however charge income is slightly ahead of forecast (£0.1m), which is offset by an under recovery of £0.4m within externally funded projects. Please note that the timber income profile has been reduced in line with the forecasted decrease in outturn.

3. There is further detail on contingencies and over-programming in the report. The pay award, general and precautionary (for corporate costs) elements have now been removed. We currently hold contingencies for IR35 potential liability (£19m), building lease exit (now settled) and £1.8m for the Case for Change. We currently hold central over programming of £0.6m, which given our under spend position, ET have considered increasing that to £1.6m. In respect to our main programmes (Flood, NaCE and NRW2030), the over/under programming has reduced considerably since the start of the year and we currently only hold over programming within the NaCE programme which totals £0.3m. Flood, NRW2030 and Water Resources have surplus balances of £0.8m, £0.5m & £0.1m respectively. We are in discussions with WG as to whether we can utilise the flood under spend within other NRW activities outside of flood.


4. The main updates since the last reporting period will be concerning potential general revenue expenditure underspends, timber income and legal cases. The building lease exit is no longer categorised as a risk as it's concluded within the budget allowed. We are confident that we will meet the £9.3m staff costs savings target set at the beginning of the year.

5. We are in discussion with WG about our likely financial position at the end of the financial year - we have requested the ability to re-allocate the flood capital underspend within NRW and deciding whether we need the budget cover for the reduction in our timber income forecast.

Risks & Opportunities

Type	Description	Expenditure Category	Previous reported - Value/£m	Latest Value/£m
Risks				
Legal Risks	Risk that outcome of cases not in line with expectations.	Revenue		tbd
Central over-programming	It had decreased, with budgets returned in January. ET decided to increase it again to £1.6m based on spend at end of February.	Revenue	1.8	1.6
Opportunities				
General revenue expenditure position including Land Stewardship	There is concern that we will have a general underspend across a number of budgets, the largest of which is Land Stewardship. As a result, we have maintained a central over-programming assumption of £1.6m.	Revenue	1.8	1.6
NaCE / NRW2030 / Flood programmes	Very low amounts of over-programming so bigger chance of underspends. Flood are forecasting an underspend of up to £0.8m. NaCE are forecasting full spend. NRW2030 is also at risk of under spend within the capital programme. We have asked WG if we can have latitude to transfer funding to LIFE and Heritage Lottery funded projects.	Capital	0.7	0.8
Variables				
Timber Income	We have reduced the forecast as a result of the recent storms, cold weather and revised market expectations. Funding for that downturn will either be covered internally or by WG. Outturn still subject to variance.	Revenue	1.6-2.0	-
IR35	Budget cover (£19m) now in place for the potential liability. Liability won't be finalised until HMRC conclude their offset calculations.	Revenue	tbd	tbd
Case for change redundancies	We have budgeted £1.8m, however this exact figure will not be known until after the expression of interest phase. Should the conclusion of the Case for Change be delayed, this may have an effect on next year.	Revenue	tbd	tbd
Recruitment controls	Target of £9.3m, currently on track to meet/exceed the savings target.	Revenue	tbd	tbd

Financial Performance – Income Forecast



Charges

Charges income has reduced by £0.8m. The reductions are mainly due to anticipated deferrals of income into 2025-26 due to the current backlog of applications. The reduction in income has been offset by a reduction in corporate costs of £0.9m and trajectory savings of £1.7m. Both these figures were anticipated and built into our respective contingency and trajectory models.

The forecasted end of year position on charges has changed considerably, moving from a deficit of £1.8m to £0.1m and can be seen by the reduced draw on reserves.

Commercial

Commercial Income has reduced by £1.8m, predominantly due to a reduction in timber income (£1.5m), retainable (£0.4m) and surrenderable income (£0.1m). These are offset by an increase in telecom rental (£0.1m) and rechargeable works (£0.1m).

With the revised timber income position now below the WG guaranteed income level, we will need to decide whether to accept additional funding from WG.

European & Other External

European & other external income has reduced by £0.2m, mainly due to the decreases within the LIFE programme and natural flood management projects (£0.5m and £0.3m respectively), which are offset by additional WG Reservoir grant income (£0.6m).


Grant in Aid

